
Adroddiad Blynyddol 2016-17 Annual Report



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Cynnwys

Adroddiad Strategol	4
Atebolrwydd	104
Datganiadau Ariannol	152

2

Contents

Strategic Report	5
Accountability	105
Financial Statements	153

3

Adroddiad Strategol

4

Rhagair	6
Cipolwg ar y flwyddyn	10
Nod, gweledigaeth a gwerthoedd	12
Cyd-destun y Gymraeg 2016-17	14
Heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad	16
Gweithgareddau a chyflawniadau 2016-17	20
Cynlluniau ar gyfer 2017-18	100

5

Strategic Report

Foreword	7
Snapshot of the year	11
Aim, vision and values	13
Context of the Welsh language 2016-17	15
Significant challenges facing the organisation	17
Activities and achievements 2016-17	21
Plans for 2017-18	101

Rhagair

Rwy'n teimlo bod y drafodaeth gyhoeddus am y Gymraeg wedi newid. Bellach nid 'pam' yw'r cwestiwn a ofynnir wrth drafod cynyddu defnydd o'r iaith, ond 'sut'. Gosodwyd y cyfeiriad i raddau helaeth gyda tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Fe gydiodd y ffigur yn nychymyg pobl ac fe ddaeth sefydliadau, mudiadau a chymdeithasau ynghyd i gydweithio er mwyn ei gyrraedd. Rwyf innau'n croesawu'r uchelgais yn y targed, ac yn edrych ymlaen at gyfrannu at gyrraedd y nod.

Does dim gwadu bod dyblu'r niferoedd sy'n gallu'r iaith erbyn 2050 am fod yn fynydd serth i'w ddringo. Mae'n hollbwysig, felly, fod yna gynllunio gofalus a phwrpasol yn digwydd ar gyfer y daith, a bod cerrig milltir yn cael eu gosod ar hyd y ffordd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod pedwar allan o bump plentyn bellach yn dysgu'r iaith yn yr ysgol. Mae'n amlwg felly bod twf y Gymraeg yn ddibynnol i raddau helaeth iawn ar dwf addysg Gymraeg. Serch hynny, ychydig iawn o gynnydd a fu yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae angen edrych ar y darlun cyflawn a chynllunio i gryfhau'r ddarpariaeth addysg Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddysgu gydol oes. Rwy'n croesawu ymateb cadarnhaol y Llywodraeth i'm pryderon am ddiffyg uchelgais mwyafrif y cynlluniau addysg Gymraeg a baratowyd gan yr awdurdodau lleol. Dylid parhau i ddatblygu'r cyrsiau Cymraeg yn ein prifysgolion, ac ni ddylid anghofio am rôl y colegau addysg bellach. Mae addysg bellach yn rhan hollbwysig o'r daith addysgol, ac o'r economi'n ehangach, ond mae bwlch sylweddol yn y ddarpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd. Mae angen mynd ati fel mater o frys i gynllunio i gynyddu'n sylweddol y cyfleoedd i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector hwn.

Yr un pryd â datblygu'r ddarpariaeth addysg, mae angen hefyd creu cyd-destun cymdeithasol i'r iaith. Wrth edrych yn ôl ar 2016-17, ni allwn beidio â sôn am bêl-droed. Yng nghystadlaethau'r Ewros haf diwethaf, rhoddwyd lle amlwg i'r Gymraeg, a gwelwyd cwmnïau mawr yn defnyddio Cymreictod a'r iaith i hyrwyddo'u nwyddau a'u gwasanaethau. Roedd yn ffrainc gen i gyfrannu at hyn drwy gydweithio â'r Gymdeithas Bêl-droed yn eu paratodau. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom lansio canllaw i gymdeithasau chwaraeon a hyfforddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau defnydd o'r iaith mewn gweithgareddau chwaraeon llawr gwlad yn ogystal.

Foreword

I feel that there has been a shift in the public debate on the Welsh language. Now, in discussions on increasing the use of Welsh, the question asked is not 'why' but 'how'. The direction has been set, to a great extent, by the Welsh Government's target of one million Welsh speakers. That figure captured people's imagination, and organisations, societies and associations came together to work together to reach this target. I too welcome the ambition inherent in this target, and look forward to contributing to reaching the aim.

One cannot deny that doubling the numbers of people who can speak Welsh by 2050 is going to be a steep mountain to climb. It is vital, therefore, that careful and purposeful planning is undertaken during this journey, and that milestones are put in place on the way. The latest figures show that four out of five children are now learning the language at school. It is apparent therefore that the growth of the Welsh language is dependant to a large extent on the growth of Welsh-medium education. Despite this, there has been very little increase in the provision of Welsh-medium education over recent years.

There is a need to look at the broader picture and put plans in place to strengthen the Welsh-medium provision from early years through to lifelong learning. I welcome the positive response by the Government to my concerns regarding the lack of ambition that was all too apparent in the majority of the local authority Welsh in Education Strategic Plans. Our universities should continue to develop their Welsh-medium courses, and the role of the further education colleges should not be overlooked. Further education is a crucial part of the educational journey, and of the wider economy, but there is a significant lack of Welsh-medium provision at present. Urgent steps must be taken to plan a significant increase in the opportunities available to study courses through the medium of Welsh in this sector.

Alongside the development of the education provision, we must also create a social context for the language. Looking back over 2016-17, it is impossible not to mention football. In the European Championships last summer, the Welsh language was given prominence and we saw large companies using pride in Wales and the Welsh language to promote their goods and services. I had the honour of contributing to this by working with the Football Association in their preparations. During the year, we launched a guide for sports associations and coaches on using Welsh in training sessions in order to ensure the language is also used in sports activities at the grass roots level.

Ar 30 Mawrth 2016 daeth hawliau newydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn sgil gosod safonau ar y 26 sefydliad cyntaf. Ers hynny, rwyf wedi gosod safonau ar 52 sefydliad arall, ac mae'r rheoliadau a basiwyd gan y Cynulliad yn ddiweddar yn golygu fy mod yn y broses o gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Bydd hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r iaith yn cryfhau'n sylweddol pan gaiff safonau eu gosod ar y sefydliadau ieuchyd; ac rwy'n edrych ymlaen at weld y Llywodraeth yn bwrw ymlaen i gyflwyno rheoliadau'r sector pwysig hwn yn fuan.

Cwestiwn sy'n cael ei ofyn i mi yn aml yw a oes yna wahaniaeth gwirioneddol rhwng y gyfundrefn safonau a'i rhagflaenydd, y cynlluniau iaith, ac a yw'r gwahaniaeth yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiad y defnyddiwr. Yn sicr, mae'r newid yn fwy na newid enw. Rwy'n gweld awydd ymysg sefydliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg erbyn hyn. Mae yna arwyddion cynnar fod profiad y defnyddiwr o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gwella. Mae ffordd bell i fynd eto i wireddu'n nod o greu Cymru lle na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond credaf ein bod yn camu i'r cyfeiriad cywir gyda'r gyfundrefn safonau.

Rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn ym mlwyddyn hanner canmlwyddiant Deddf yr Iaith 1967. Mae pen-blwyddi o'r fath yn gyfle i edrych yn ôl ac ystyried y cynnydd a wnaed. Ar ddiwedd y 60au doedd yna fawr ddim defnydd swyddogol o'r Gymraeg ac roedd Cymru lle byddai gennym ein Senedd ein hun fyddai'n gweithredu ac yn deddfu yn ddwyieithog yn rhywbeth y tu hwnt i ddirnadaeth llawer. Wrth i'r Llywodraeth baratoi dros y misoedd nesaf i adolygu Mesur y Gymraeg, un neges yr wyf yn awyddus i ni i gyd ei chadw mewn cof yw pa mor bell yr ydym wedi dod, a sut y mae deddfu yn cyfrannu at hybu defnydd o'r iaith a chadarnhau hawliau ei siaradwyr. Esblygu a datblygu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen ac adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd eisoes yn eu lle.



Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

On 30 March 2016, new rights to use the Welsh language came into force following the imposition of standards on the first 26 organisations. Since then, I have imposed standards on another 52 organisations, and the regulations passed by the Assembly recently mean that I am in the process of issuing compliance notices to further and higher education institutions. The public's rights to use Welsh will strengthen substantially when standards will be imposed on health organisations, and I look forward to seeing the Government moving forward to introduce standards to this important sector soon.

A question I am asked regularly is whether there is a genuine difference between the standards regime and the preceding language schemes system, and whether this difference is reflected in the experience of service users. Without doubt, the change has been more than simply a change in name. I am witnessing a desire amongst organisations to ensure that they are complying with the Welsh language standards. There are early indications that the experience of Welsh language service users is improving. There is quite a way to go yet before we achieve the aim of ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language in Wales and that people are able to choose to live their lives through the medium of Welsh, but I believe that we are moving in the right direction with the standards.

I write these words fifty years since the enactment of the Welsh Language Act 1967. These anniversaries are an opportunity to look back and consider the progress we have made. At the end of the 60s, there was very little use of the Welsh language in official spheres and envisaging a Wales where we had our own Senedd with its own bilingual proceedings and laws would have been beyond many people's imagination. With the Government preparing to review the Welsh Language Measure over the next few months, I am keen that we all remember how far we have come, and how legislation contributes to the promotion of the language and the affirmation of the rights of its speakers. We need to evolve and develop our legislation, building on the strong foundations already in place.



Meri Huws

Meri Huws
Welsh Language Commissioner

Cipolwg ar y flwyddyn

85%

yn credu bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono



Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i bwyllgorau'r Cynulliad ac eraill

26

Y Comisiynydd wedi gosod safonau ar

Agor

83

ymchwiliad i gydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith



52

sefydliad newydd



76%

o siaradwyr Cymraeg yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella

68%

yn hoffi gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan archfarchnadoedd yng Nghymru



258

o gyfeiriau at y Comisiynydd yn y wasg brint ac ar lein

Snapshot of the year

85%

believe that the Welsh language is something to be proud of



Written and oral evidence presented to Assembly committees and others on

26

The Commissioner placed standards on

83

investigations opened into compliance with Welsh language duties



52

new organisations



76%

of Welsh speakers agree that public organisations' Welsh language services are improving

68%

people like to see Welsh being used by supermarkets in Wales



258

references to the Commissioner in the printed press or online

Nod, gweledigaeth a gwerthoedd

Nod

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac i ddyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi'u gosod drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny. Mae dwy egwyddor yn sail i'r gwaith, sef yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2015-17 yn egluro sut yn union y bwriedir gweithio tuag at gyflawni nod cyffredinol y Comisiynydd.

Gweledigaeth a gwerthoedd

Dros amser, dyhead Comisiynydd y Gymraeg yw gweld:

- Y Gymraeg wrth galon polisi yng Nghymru
- Defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu
- Gwell profiad i ddefnyddwyr y Gymraeg yn sgil gwaith rheoleiddio
- Mynediad at gyfiawnder i unigolion mewn perthynas â'r Gymraeg
- Arloesi wrth hybu a hwyluso isadeiledd y Gymraeg.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol a gwireddu camau cychwynnol y weledigaeth, bydd y Comisiynydd a'i swyddogion yn gweithredu ar sail gwerthoedd craidd. Wrth ffurfio barn bydd y Comisiynydd yn gadarn gan roi sicrwydd i'r defnyddiwr. Bydd yn defnyddio pob cyfle i fod yn rhagweithiol ac i dorri tir newydd er mwyn ysgogi newid a gwella parhaus. Er mwyn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg, bydd yn llais dros siaradwyr Cymraeg. I feithrin amgylchedd gweithio iach sy'n cefnogi ei weithwyr ac yn ceisio eu barn, ac er mwyn bod yn sefydliad sy'n dysgu o brofiad, bydd yn agored ac yn deg.

Aim, vision and values

Aim

The principal aim of the Welsh Language Commissioner is to promote and facilitate the use of the Welsh language. In so doing, the Commissioner will try to increase the use of Welsh in the provision of services, and through other opportunities. The Commissioner will also highlight the Welsh language's official status in Wales and duties to use the Welsh language which have been imposed by law, and rights emanating from the enforcement of such duties. Two principles underpin the work namely the principle that in Wales the Welsh language should be treated no less favourably than the English language and that persons in Wales should be able to live their lives through the medium of Welsh if they wish to do so. The Welsh Language Commissioner's Strategic Plan 2015-17 explains how the work towards attaining the Welsh Language Commissioner's general aim will be carried out.

Vision and values

Over time, it is the Welsh Language Commissioner's desire to see:

- The Welsh language at the heart of policy in Wales
- Use of the Welsh language increasing
- A better experience for Welsh language users as a result of regulation
- Access to justice for individuals in respect of the Welsh language
- Innovation in promoting and facilitating the infrastructure of the Welsh language

In carrying out statutory functions and implementing the initial stages of the vision, the Commissioner and officers will operate on the basis of core values. In forming an opinion the Commissioner will be firm, providing assurance to the user. The Commissioner will take every opportunity to be proactive and to break new ground in order to encourage continuous change and improvement. In order to contribute towards increasing the use of the Welsh language, the Commissioner will be a voice on behalf of Welsh speakers. In order to develop a healthy working environment that supports and seeks the opinions of its workers, and in order to be an organisation that learns from experience, the Commissioner will be open and fair.

Cyd-destun y Gymraeg 2016-17

Adroddiad 5-mllynedd ar sefyllfa'r Gymraeg

Ar 3 Awst 2016, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg yr adroddiad 5-mllynedd cyntaf ar sefyllfa'r Gymraeg. Mae cyhoeddi'r adroddiad yn un o swyddogaethau statudol y Comisiynydd o dan Adran 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Astudiaeth ystadegol ac ymchwil am y Gymraeg a'r defnydd ohoni yw'r adroddiad, ac mae'n canolbwyntio ar dri maes, sef adrodd ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011, creu siaradwyr Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg.

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth sy'n dod o nifer o ffynonellau, gan gynnwys y Cyfrifiad, Arolwg Defnydd Iaith 2013-2015, arolygon omnibws ac ymchwil sefydliadau eraill.

Dyma rai o brif ganfyddiadau ffeithiol yr adroddiad:

- Mae canran y plant 5-15 oed sy'n medru siarad Cymraeg wedi dyblu ers 1981.
- Bu gostyngiad o dros 20,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 (ond cynnydd o 20,000 ers 1971).
- Mae nifer y cymunedau lle mae 70% yn siarad Cymraeg wedi gostwng o 53 yn 2001 i 39 erbyn 2011.
- Mae 13% o bobl Cymru'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd.
- Mae 85% yn credu bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono, ac mae 86% yn credu bod yn yr iaith yn bwysig i'r diwylliant Cymreig.
- Mae nifer sylweddol o blant yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, ond ni welwyd cynnydd gwirioneddol dros y blynyddoedd diwethaf.
- Ni fu cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y niferoedd o blant sy'n derbyn addysg a gofal blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch yn parhau i fod yn isel.

The context of the Welsh language 2016-17

5-year report on the position of the Welsh language

On 3 August 2016, the Welsh Language Commissioner published the first 5-year report on the position of the Welsh language. Publishing this report is one of the Commissioner's statutory functions under Section 5 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

The report consists of a statistical and research-based study of the language and its use, and focuses on three areas: reporting on the 2011 Census results, creating Welsh speakers and the use of the Welsh language.

The findings of the report are based on data and information from a number of sources, including the Census, the 2013-2015 Language Use Survey, omnibus surveys and research by other organisations.

Some of the main factual findings of the report are as follows:

- The percentage of children aged 5-15 able to speak Welsh has doubled since 1981.
- There was a decrease of over 20,000 in the number of Welsh speakers between 2001 and 2011 (but an increase of 20,000 since 1971).
- The number of communities where 70% of the population speaks Welsh has fallen from 53 in 2001 to 39 in 2011.
- 13% of the population of Wales use Welsh every day.
- 85% believe that the Welsh language is something to be proud of, and 86% believe that the language is important to Welsh culture.
- A significant number of children are educated through the medium of Welsh in schools, but no real increase has been seen in recent years.
- There has been no increase over recent years in the number of children receiving early years education and nursery care through the medium of Welsh, and the numbers studying through the medium of Welsh in further and higher education continue to be low.

Heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad

Mae'r Comisiynydd yn cadw cofrestr o risgiau strategol sy'n amlinellu'r prif heriau sy'n wynebu'r sefydliad. Prif ddiben y gofrestr yw adnabod tebygolrwydd ac effaith risgiau er mwyn gallu cymryd camau i'w rheoli neu eu lliniaru. Caiff y gofrestr hon ei diweddarau'n gyson.

Mae'r risgiau yn cynnwys materion mewnol, megis sicrhau trefniadau llywodraethiant a gweinyddu da, a sicrhau gweithredu yn unol â gofynion cyfreithiol. Mae risgiau eraill yn delio gyda materion sy'n deillio o benderfyniadau a datblygiadau allanol.

Er enghraifft, mae cyllideb y Comisiynydd yn parhau i fod yn her sylweddol. Fel amlygwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae lefel ariannu swyddfa'r Comisiynydd wedi gostwng o £4,100,000 i £3,051,000 ers ei sefydlu yn 2012. Mae hynny'n doriad o dros 25% mewn termau ariannol ac er na fu toriad yng nghyllideb y Comisiynydd ar gyfer 2017-18, nid oes sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi gorfod gwneud arbedion i'w chyllideb ac wedi ceisio gwneud hynny heb gael effaith andwyol ar ei swyddogaethau. Byddai parhau i wneud hynny gyda thoriadau pellach i'r gyllideb yn heriol iawn ac yn ymarferol byddai'n rhaid peidio â gwneud rhai gweithgareddau pwysig nad ydynt yn ofynion statudol. Enghraifft o hynny yw gwaith ymchwil. Mae'r Comisiynydd wedi buddsoddi neu gyfrannu tuag at waith ymchwil sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Arolwg Defnydd Iaith 2015 a'r ymholiad i ofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'n bosibl buddsoddi mewn ymchwil o'r fath heb gyllideb ddigonol a sgil effaith hynny fyddai cyfyngu ar ein dealltwriaeth o ddefnydd y Gymraeg a phrofiadau unigolion.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe gyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn paratoi ar gyfer Bil newydd ar y Gymraeg. Byddai hynny'n golygu adolygu Mesur y Gymraeg 2011, sef y ddeddfwriaeth a sefydlodd y Comisiynydd. Wrth adolygu'r Mesur, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu ystyried y gyfundrefn safonau, swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiynydd a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi datgan yn gwbl glir bod y safonau yma i aros, ac mai'r broses yn hytrach na'r egwyddor a fydd o dan ystyriaeth wrth adolygu'r ddeddfwriaeth.

Significant challenges facing the organisation

The Commissioner maintains a register of strategic risks outlining the main challenges facing the organisation. The main aim of the register is to identify the likelihood and impact of risks in order to control those risks or to take mitigating action. This register is updated regularly.

The risks include internal issues, such as good governance and administrative arrangements, and ensuring the organisation acts in accordance with legal requirements. Other risks relate to issues arising from external decisions and developments.

For instance, the Commissioner's budget continues to be a significant challenge. As outlined in previous reports, the funding level of the office of the Commissioner has decreased from £4,100,000 to £3,051,000 since its establishment in 2012. This is a decrease of over 25% in financial terms and although there has been no cut to the Commissioner's budget for 2017-18, the future remains uncertain. The Commissioner has already had to make savings to her budget and has sought to do so without detriment to her functions. Continuing in this way, with further budget cuts, would be highly challenging and in practical terms it would mean not doing some important activities that are not statutory requirements. An example of this is research work. The Commissioner has invested or contributed towards substantial research over the last few years, such as the Language Use Survey 2015 and the inquiry into primary care through the medium of Welsh. It is not possible to invest in research of this nature without adequate resources and the impact will be to limit our understanding of the use of Welsh and the experiences of individuals.

During the past year, the Government has announced that it is preparing for a new Welsh Language Bill. This would mean revising the Welsh Language Measure 2011, the legislation that established the Commissioner. In revising the Measure, the Government has announced that it intends to consider the standards regime, the Commissioner's regulatory functions and responsibilities for the promotion of the Welsh language. The Government has also made clear that the standards are here to stay, and it is the process rather than the principle that is under consideration in revising the legislation.

Mae newid fel hyn yn cynnig heriau a chyfleoedd i'r sefydliad. Yr her gyntaf fydd yn wynebu'r Comisiynydd fydd sicrhau nad oes colli momentwm gyda'r gwaith pwysig sydd wedi digwydd hyd yma o dan Fesur y Gymraeg. Mae nifer sylweddol o sefydliadau yn gweithredu safonau erbyn hyn ac mae tystiolaeth gynyddol bod darpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn gwella. Mae'n bwysig nad yw'r momentwm hwn yn cael ei golli. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ar gyfer y gyfundrefn newydd ac mae'n bwysig bod newidiadau mewn deddfwriaeth yn gwella ac yn atgyfnerthu'r gyfundrefn sy'n bodoli gan osgoi'r risg o arafu'r cynnydd sydd wedi bod.

Y cam cyntaf ffurfiol yn y broses o ddatblygu'r Bil newydd fydd Papur Gwyn Llywodraeth yn cynnig opsiynau ar gyfer y ffordd ymlaen. Bydd y Comisiynydd yn cyfrannu mor llawn ac mor adeiladol â phosibl yn y trafodaethau. Disgwylir i'r Llywodraeth wneud cyhoeddiad ar y Papur Gwyn yn ystod yr haf.

Such a change presents challenges and opportunities for the organisation. The first challenge to face the Commissioner will be to ensure that no momentum is lost with the important work already carried out under the Welsh Language Measure. A significant number of organisations are now implementing standards and there is increasing evidence that Welsh language provision is improving. It is important that this momentum is not lost. The new regime is still in its infancy and it is important that legislative changes improve and strengthen the existing system and avoids the risk of slowing the progress that has been made.

The first formal step in the process of developing a new Bill is a Government White Paper outlining options for the way forward. The Commissioner will contribute as fully and as constructively as possible to the debate. We expect the Government to make an announcement on the White Paper during the summer.

Gweithgareddau a chyflawniadau

Mae Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2015-17 yn gosod seiliau gwaith a blaenoriaethau'r Comisiynydd.

20

Amcanion strategol:

- 1.** Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi
 - 2.** Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg
 - 3.** Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio
 - 4.** Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol
 - 5.** Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol
-

Activities and achievements

The Welsh Language Commissioner's Strategic Plan 2015-17 lays the foundations for the Commissioner's work and priorities.

21

Strategic objectives:

- 1.** To influence the consideration given to the Welsh language in policy developments
 - 2.** To ensure justice for Welsh language users
 - 3.** To impose statutory duties and regulate them
 - 4.** To encourage, promote and facilitate the use of the Welsh language on a voluntary basis
 - 5.** To operate and communicate appropriately and effectively
-

Amcan strategol 1: Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi

Mae gan bolisi a deddfwriaeth rôl allweddol i'w chwarae mewn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig polisi ar addysg Gymraeg. Maent hefyd yn allweddol i sicrhau defnydd yr iaith, er enghraifft defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'i defnydd yn gymdeithasol. O'r herwydd mae dylanwadu ar bolisi yn rhan hanfodol o waith y Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd yn cynnal ac yn comisiynu gwaith ymchwil, llunio a chyhoeddi adroddiadau, gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru a chyflwyno sylwadau neu roi cyngor i bersonau. Mae'r rhain oll yn ffyrdd o ddylanwadu ar bolisi.

Tystiolaeth a roddwyd

Darparwyd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar 26 achlysur i bwyllgorau'r Cynulliad ac eraill, er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg.

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad

- Rhaglen waith y pwyllgor
- Bil Cymru 2016
- Strategaeth y Gymraeg ddrafft Llywodraeth Cymru
- Dyfodol S4C
- Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad
- Adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg
- Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg

"Mae angen gwyrddroi cyfrwng iaith addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan roi'r gorau i baratoi mwyafrif llethol ein pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith trwy gyfrwng y Saesneg yn unig."

Meri Huws, Tystiolaeth ar Strategaeth y Gymraeg ddrafft Llywodraeth Cymru, 14 Rhagfyr 2016.

"Yr her i'r gwasanaeth iechyd yw cynllunio gwasanaeth lle mae'r claf wrth y canol ac wedyn os oes angen neu awydd i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, bod hynny'n rhan o'r pecyn gofal."

Meri Huws, Tystiolaeth ar yr Adroddiad Blynyddol, 14 Rhagfyr 2016.

Strategic Objective 1: To influence the consideration given to the Welsh language in policy developments

Policy and legislation play a key role in increasing the number of Welsh speakers, in particular policy on Welsh-medium education. They are also vital in ensuring language use, for instance, the use of Welsh language services, Welsh in the workplace and social use of the language. As a result, a crucial part of the Commissioner's work is influencing policy.

The Commissioner conducts and commissions research, drafts and publishes reports, and makes recommendations and provides advice to Welsh Ministers and others. These are all ways of influencing policy.

Evidence given

Written and oral evidence was provided on 26 occasions to Assembly committees and others, in order to ensure appropriate consideration of the Welsh language.

The Culture, Welsh Language and Communications Committee

- The committee's programme of work
- The Wales Bill 2016
- The Welsh Government's draft Welsh Language Strategy
- The future of S4C
- The Assembly's Official Languages Scheme
- The Welsh Language Commissioner's 5-year Report
- The Welsh Language Commissioner's Annual Report

"There is a need to overhaul the language of education and training in Wales, thus reversing the current practice of preparing the vast majority of our young people for work through the medium of English only."

Meri Huws, Evidence on the Welsh Government's draft Welsh Language Strategy, 14 December 2014.

"The challenge for the health service is planning a service where the patient is at the centre and then if there is a need or a desire to communicate through the medium of Welsh, that that is part of the care package."

Meri Huws, Evidence on the Annual Report, 14 December 2016.

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad

- Blaenoriaethau'r Pwyllgor
- Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon
- Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

"Dylai'r Bil drafft fanteisio ar unrhyw gyfleoedd posib i osgoi risg o wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar eu cyfer."

Meri Huws, Tystiolaeth ar y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, 2 Mawrth 2017.

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad

- Blaenoriaethau'r Pwyllgor
- Bil Iechyd y Cyhoedd

Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad

- Adolygiad o system ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- Bil Cymru 2016

Tystiolaeth i eraill ar faterion amrywiol

- Adolygiad o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cynllun Ieithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Adolygiad o Gynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn
- Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog

The Assembly's Children, Young People and Education Committee

- The Committee's priorities
- Teachers' Professional Learning and Education
- The Additional Learning Needs and Education Tribunal Bill

"The draft Bill should take advantage of any possible opportunities to avoid the risk of discriminating against Welsh speakers who have additional learning needs as a result of the lack of provision of Welsh language services for them."

Meri Huws, Evidence on the Additional Learning Needs and Education Tribunal Draft Bill, 2 March 2017.

The Assembly's Health, Social Care and Sports Committee

- The Committee's priorities
- The Public Health Bill

The Assembly's Petitions Committee

- Review of the National Assembly for Wales' petitions system

The Constitutional and Legislative Affairs Committee

- The Wales Bill 2016

Evidence to others on various matters

- Review of the activities of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- The National Assembly for Wales' Official Languages Scheme
- Review of Welsh in Education Strategic Plans
- Gwynedd and Môn Local Development Plan
- Language, Work and Bilingual Services

Ymateb i ymgynghoriadau

Mae llywodraethau a sefydliadau eraill yn cyflwyno polisiau newydd yn gyson, un ai fel rhan o waith sydd wedi ei gynllunio ymlaen llaw, er enghraifft o fewn rhaglenni llywodraethu, neu'n bolisiau a gyflwynir mewn ymateb i amgylchiadau ar y pryd. Mae'r Comisiynydd yn chwilio am gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi fel hyn, ac un ffordd o ddylanwadu yw drwy gyflwyno tystiolaeth ac ymateb i ymgynghoriadau.

Ymatebwyd i ymgynghoriadau ar 33 o achlysuron yn ystod 2016-17. Dyma rai ohonynt:

Llywodraeth Cymru

- Strategaeth y Gymraeg ddrafft
- Diwygio llywodraeth leol
- Casglu data am y gweithlu ysgolion
- Is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- Gwasanaeth gofal llygaid ar gyfer disgyblion ysgol
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg
- Strategaeth Dementia i Gymru

Ymateb i ymgynghoriadau eraill ar faterion amrywiol

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (22)
- Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru
- Rhaglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith
- Datblygu Strategaeth Addysg Uwch i Gymru
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion

Caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Cyfarfodydd â gweinidogion a gwleidyddion

Mae cynnal trafodaeth barhaus â Gweinidogion Cymru a gwleidyddion eraill yn ffordd o sicrhau bod y Gymraeg a negeseuon y Comisiynydd yn dod yn ystyriaeth gyson mewn penderfyniadau polisi. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Comisiynydd yn cynnal cyfarfodydd cyson a rheolaidd â Gweinidogion Cymru ac â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ogystal â gyda llefarwyr y pleidiau ar yr iaith Gymraeg. Roedd y trafodaethau'n ymhél ag amrywiol bynciau cyfredol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, addysg, cofrestru sifil a darlledu ymysg eraill.

Responding to consultations

Governments and other organisations regularly introduce new policy, either as part of a planned programme of work, for instance within programmes of government, or policies introduced in response to emerging situations. The Commissioner seeks opportunities to influence such policy decisions, and one means of influence is to submit evidence and respond to consultations.

The Commissioner provided 33 responses to consultations during 2016-17. Here are some examples:

Welsh Government

- Draft Welsh Language Strategy
- Local government reform
- School workforce data collection in Wales
- Secondary legislation under the Historic Environment (Wales) Act 2016
- School pupil eye care service
- The Additional Learning Needs and Education Tribunal Bill
- Dementia Strategy for Wales

Responses to other consultations on various matters

- Welsh in Education Strategic Plans (22)
- Review of Parliamentary Constituencies in Wales
- The Law Commission's Programme of Law Reform
- Development of a Higher Education Strategy for Wales
- Well-being of Future Generations
- Welsh for Adults National Curriculum

Responses to consultations are published on the Commissioner's website.

Meetings with ministers and politicians

Conducting continuous dialogue with Welsh Ministers and other politicians is a way of ensuring that the Welsh language and the Commissioner's messages become a regular consideration in policy decisions. During the year, the Commissioner has held regular meetings with Welsh Ministers and with the Office of the Secretary of State for Wales, as well as with the parties' Welsh language spokespersons. The discussions covered a variety of current topics, including health and social care, sports, education, civil registration and broadcasting.

Mesur effaith y gwaith dylanwadu ar bolisi

Cefnogwyd sylwadau'r Comisiynydd ar y Bil Cymru drafft gan wleidyddion a rhoddwyd sylw iddynt gan bwyllgorau yn y Cynulliad ac yn San Steffan, ac ar lawr y Tŷ Cyffredin.

"Throughout the scrutiny of the Bill, we have tabled amendments following concerns expressed to us by the Welsh Language Commissioner regarding the Bill's potential effect on the National Assembly's power to legislate on matters pertaining to the Welsh language."

Hywel Williams AS wrth drafod Bil Cymru, 27 Ionawr 2017.

Cafodd gwaith y Comisiynydd ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg gryn sylw gan bwyllgorau'r Bae ac ar lawr y Senedd.

"[...] byddwch chi'n gwybod cystal â minnau bod Comisiynydd y Gymraeg [...] wedi mynegi [...] pryderon am ansawdd a diffyg uchelgais cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg sydd wedi cael eu llunio gan awdurdodau lleol ar draws y wlad."

Darren Millar AC wrth drafod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, 14 Mawrth 2017.

Derbyniodd Comisiwn y Gyfraith gynigion y Comisiynydd am yr angen i adolygu'r gyfraith ynghylch priodi yn Gymraeg a'u cynnwys yn eu Rhaglen Diwygio'r Gyfraith.

Roedd gwaith monitro'r Comisiynydd yn dangos bod oddeutu 8 cyfeiriad y mis at y Comisiynydd yn nhrefodaethau'r Cynulliad (sampl Ionawr – Mawrth 2017).

Measuring the impact of the work on influencing policy

The Commissioner's representations on the Draft Wales Bill were supported by politicians and given due regard in committees at the Assembly and Westminster, and on the floor of the House of Commons.

"Throughout the scrutiny of the Bill, we have tabled amendments following concerns expressed to us by the Welsh Language Commissioner regarding the Bill's potential effect on the National Assembly's power to legislate on matters pertaining to the Welsh language."

Hywel Williams MP during the debate on the Wales Bill, 27 January 2017.

The Commissioner's work on the Welsh in Education Strategic Plans was given significant attention by the Committees in Cardiff Bay and on the floor of the Senedd.

"[...] you will know as well as I do that [...] the Welsh Language Commissioner [...] have expressed concerns about the quality and lack of ambition of the Welsh in education strategic plans that have been produced by local authorities across the country."

Darren Millar AM in the debate on the Welsh in Education Strategic Plans, 14 March 2017.

The Commissioner presented her proposals on the need to review the law on marriage in Wales to the Law Commission and they were included in their Programme of Law Reform.

The Commissioner's monitoring work showed that there were around 8 references a month to the Commissioner in Assembly proceedings (sample January – March 2017).

Cyhoeddi Adroddiad 5-mlynedd

Cyhoeddwyd yr adroddiad 5-mlynedd cyntaf ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni ar 3 Awst 2016. Cynhaliwyd dau sesiwn i gyflwyno'r prif ganfyddiadau, y naill yn yr Eisteddfod a'r llall mewn digwyddiad yn y Pierhead ym Mae Caerdydd ar 6 Hydref 2016.

Derbyniodd yr adroddiad sylw ar y cyfryngau, cyhoeddwyd erthygl ar wefan y Sefydliad Materion Cymreig, a chafodd ei drafod ar lawr y Senedd ar 27 Medi 2016 a 9 Tachwedd 2016 a'i ystyried gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 14 Rhagfyr 2016.

Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi arwain at brosiectau penodol gan y Comisiynydd e.e. ymchwil i ofal plant cyfrwng Cymraeg, ar sail canfyddiad yr adroddiad bod diffyg tystiolaeth ar gael.

Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r Adroddiad 5-Mlynedd yn adran "Cyd-destun y Gymraeg" yr adroddiad hwn.

Ymchwil a gomisiynwyd**Gofal plant cyfrwng Cymraeg**

Mae tystiolaeth yn dangos bod cyflwyno'r Gymraeg i blentyn o oed cynnar yn cael dylanwad mawr ar ei ruglder a'i ddefnydd o'r iaith am weddill ei oes.

Wrth gomisiynu gwaith ymchwil i'r sector, penderfynodd y Comisiynydd ganolbwyntio ar dri maes allweddol sy'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg, sef cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim, tyfu'r sector gofal cyfrwng Cymraeg a'r cynllun Dechrau'n Deg.

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi nodyn briffio ar y maes hwn yn ystod 2017-18, ond gellir cyhoeddi bod y canlyniadau'n amlygu:

- heriau i sicrhau darpariaeth Gymraeg yn y cynnig 30 awr
- angen newid diwylliannol yn y modd y caiff y sector gofal cyn ysgol ei gynllunio a'i hyrwyddo os oes unrhyw dwf i fod mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- colli cyfle i gynyddu mynediad at ofal cyfrwng Cymraeg drwy Dechrau'n Deg, hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac annog rhieni i ddewis llwybr addysg Gymraeg i'w plant.

Publishing the 5-year Report

The first 5-year report was published at the National Eisteddfod in Abergavenny on 3 August 2016. Two sessions were held to present the main findings, one at the Eisteddfod and the other at an event at the Pierhead in Cardiff Bay on 6 October 2016.

The report attracted media coverage, an article was published on the website of the Institute of Welsh Affairs, and it was aired on the floor of the Senedd on 27 September 2016 and 9 November 2016, and considered by the Culture, Welsh Language and Communications Committee on 14 December 2016.

The report's findings have led to specific projects conducted by the Commissioner, e.g. research on Welsh language childcare based on the finding in the report that there was a lack of evidence.

A summary of the main findings of the 5-year Report is given in the section "Context of the Welsh Language" within this report.

Commissioned research**Welsh-medium childcare**

Evidence shows that introducing the Welsh language to a child at an early age has a huge influence on the child's fluency and their use of the language throughout their life.

In commissioning research into this sector, the Commissioner decided to focus on three key areas that impact on the Welsh language: the Welsh Government's offer to provide 30 hours of free childcare; growth of the Welsh-medium childcare sector; and the Flying Start scheme.

The Commissioner will publish a briefing note on this during 2017-18, but can announce that the results highlight:

- challenges to ensuring Welsh-medium provision in the 30 hours offer
- a need for a culture change in the way in which the pre-school childcare sector is planned and promoted if there is to be any increase in the Welsh-medium childcare provision
- a missed opportunity in terms of increasing access to Welsh-medium childcare through Flying Start, the promotion of the benefits of bilingualism, and encouraging parents to choose a Welsh language education path for their children.

Anghenion dysgu ychwanegol

Yn 2016, cytunodd Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru i gasglu gwybodaeth gan awdurdodau lleol Cymru ar addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Gwnaed hynny yn sgil cwynion oedd wedi eu cyflwyno i'r ddau sefydliad yn amlygu diffygion o ran argaeledd llefydd digonol mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg a diffyg cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant ag anghenion addysgol ychwanegol.

Paratowyd holiadur a'i anfon at awdurdodau lleol ym mis Hydref 2016 i gasglu gwybodaeth am y graddau y mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi llwyddo i ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Derbyniwyd ymatebion gan 17 awdurdod.

Defnyddiodd y Comisiynydd yr ymchwil fel sail wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.

“Mae ymchwil a gynhaliwyd ar y cyd rhyngof i a Chomisiynydd Plant Cymru yn dangos anghysondeb yn y ddarpariaeth cymorth dysgu ychwanegol y mae awdurdodau lleol Cymru yn medru ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.”

Meri Huws, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Chwefror 2017.

Ymchwil arall

Mae Prifysgol Aberystwyth wrthi'n trefnu a chynnal cyfres o ddigwyddiadau ar effaith newidiadau cymdeithasol ar y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill. Mae'r Comisiynydd yn bartner yn y prosiect ac yn cyfrannu at y digwyddiadau.

Cynhaliwyd ymchwil ar agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd. Ceir cyfeiriad pellach at y gwaith hwn ar dudalen 74.

Hefyd cynhaliwyd arolwg ffôn drwy Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Cwmni Ymchwil Beaufort. Ceir cyfeiriad pellach at y gwaith hwn ar dudalen 64.

Additional learning needs

In 2016, the Welsh Language Commissioner and the Children's Commissioner agreed to gather information from Welsh local authorities on Welsh-medium education in schools. This was undertaken following complaints made to both organisations that highlighted deficiencies in the availability of sufficient places in some Welsh-medium schools and a lack of support through the medium of Welsh for additional learning needs pupils.

A questionnaire was prepared and sent to local authorities in October 2016 to gather information on the extent to which local authorities in Wales have succeeded in responding to the need for Welsh-medium education. Seventeen authorities responded.

This research was the basis for the Commissioner's response to the consultation on the Additional Learning Needs Bill.

“Research conducted by myself and the Children's Commissioner for Wales shows the inconsistency in the additional learning needs provision that local authorities in Wales are able to offer through the medium of Welsh.”

Meri Huws, in evidence to the Children, Young People and Education Committee, 20 February 2017.

Other research

Aberystwyth University are in the process of organising and conducting a series of events on the effects of social change on the Welsh language and other minority languages. The Commissioner is a partner in the project and contributes to the events.

Research was undertaken into the attitudes of customers towards the use of Welsh by supermarkets. Further reference is made to this work on page 75.

Also, a telephone survey was conducted through the Welsh Speakers Omnibus Survey conducted by Beaufort Research. Further reference is made to this work on page 65.

Amcan strategol 2: Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn daeth 52 o sefydliadau o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, gan ddod â chyfanswm y sefydliadau sy'n gweithredu safonau i 78. Hwn, felly, yw'r Adroddiad Blynyddol cyntaf i adrodd ar weithrediad y pwerau gorfodi a roddwyd i'r Comisiynydd ym Mesur y Gymraeg ers iddynt ddod i rym.

Roedd mwyafrif sefydliadau cyhoeddus mawr Cymru yn parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn, ac felly hefyd cyrff y Goron, gyda'r Comisiynydd yn ymdrin â chwynion am weithrediad y cynlluniau hynny yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Safonau'r Gymraeg

Dadansoddiad cwynion safonau'r Gymraeg

Cyfeiriwyd 151 cwyn o dan y drefn safonau at y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn.

Mae adran 93 Mesur y Gymraeg yn diffinio cwyn statudol fel un sydd:

- Wedi ei chyflwyno yn ysgrifenedig gan berson y mae'n ymddangos bod y methiant honedig effeithio'n uniongyrchol arno
- Yn ei gwneud yn hysbys pwy sy'n destun y gŵyn ac yn ei gwneud yn hysbys beth yw'r methiant honedig
- Yn rhoi cyfeiriad lle caiff y Comisiynydd gysylltu â'r person

Tabl 1: Safonau'r Gymraeg: cwynion a dderbyniwyd

Safonau'r Gymraeg – cwynion 30 Mawrth 2016 – 31 Mawrth 2017¹

Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd	151
Cyfanswm y cwynion dilys	124
Cyfanswm y cwynion annilys	27

Mae'r 151 yn gynydd o 54 yn nifer y cwynion a dderbyniwyd o'i gymharu â'r 97 cwyn a gyflwynwyd i'r Comisiynydd ynghylch yr un sefydliadau yn 2015-16 (o dan drefn cynlluniau iaith).

¹ Mae nifer cwynion safonau'r Gymraeg yr adroddir arnynt yn cynnwys y cwynion a dderbyniwyd ar 30 a 31 Mawrth 2016. Nid adroddwyd ar y cwynion hyn yn adroddiad blynyddol 2015-16 oherwydd mai dim ond am ddau ddiwrnod yn unig yr oedd gweithdrefn safonau'r Gymraeg wedi bod yn weithredol.

Strategic Objective 2: To ensure justice for Welsh language users

During the year, the duty to comply with Welsh language standards was imposed on 52 organisations, bringing the number of organisations implementing standards to 78. Therefore this is the first Annual Report to report on the implementation of the Commissioner's enforcement powers as granted by the Welsh Language Measure since coming into force.

During the period in question, the majority of the large public organisations in Wales continued to implement their language schemes, together with Crown bodies, and the Commissioner dealt with complaints regarding the implementation of those schemes in accordance with the requirements of the Welsh Language Act 1993.

Welsh language standards

Analysis of complaints in relation to Welsh language standards

A total of 151 complaints were referred to the Commissioner during the year under the standards procedures.

Section 93 of the Welsh Language Measure defines a statutory complaint as one that:

- Has been submitted in writing by a person who appears to have been directly affected by the alleged failure
- Identifies the subject of the complaint and identifies the alleged failure
- Gives an address at which the Commissioner may contact the person

Table 1: Welsh Language Standards: complaints received

Welsh Language Standards – complaints 30 March 2016 – 31 March 2017¹

Total number of complaints received	151
Total number of valid complaints	124
Total number of invalid complaints	27

The 151 is an increase of 54 in the number of complaints received, compared with the 97 complaints submitted to the Commissioner regarding the same organisations in 2015-16 (under language schemes procedures).

¹ The number of complaints in relation to the Welsh language standards reported on include complaints received on 30 and 31 March 2016. These complaints were not reported on in the 2015-16 annual report as the Welsh language standards procedures had only been in place for two days.

Ymchwiliadau cydymffurfio â safonau

Agorwyd 66 ymchwiliad o ganlyniad i gwynion y cyhoedd yn 2016-17.

Tabl 2: Safonau'r Gymraeg: agor ymchwiliadau

**Safonau'r Gymraeg – ymchwiliadau
30 Mawrth 2016 – 31 Mawrth 2017²**

Nifer y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd i agor ymchwiliad i gwyn ddilys	66
Nifer y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gwyn ddilys	54
Nifer y cwynion oedd yn parhau dan ystyriaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd	4
Penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd i agor ymchwiliad i amheuon o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg lle nad oedd yr amheuaeth yn deillio o gwyn	17
Ymchwiliadau a derfynwyd cyn dyfarnu	14

Yn yr achosion hynny lle penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad i gwyn ddilys, roedd hynny oherwydd nad oedd y gwyn yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safon am i) nad y sefydliad y cwynwyd amdano oedd yn gyfrifol am y methiant honedig, ii) nad oedd y sefydliad y cwynwyd amdano dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â safon berthnasol, neu iii) na ddarparwyd gwybodaeth ddigonol am y methiant honedig.

² Mae nifer cwynion safonau'r Gymraeg yr adroddir arnynt yn cynnwys y cwynion a dderbyniwyd ar 30 a 31 Mawrth 2016. Nid adroddwyd ar y cwynion hyn yn adroddiad blynyddol 2015-16 oherwydd mai dim ond am ddau ddiwrnod yn unig yr oedd gweithdrefn safonau'r Gymraeg wedi bod yn weithredol.

Analysis of investigations into compliance with standards

A total of 66 investigations were opened following complaints by the public in 2016-17.

Table 2: Welsh Language Standards: investigations opened

**Welsh Language Standards – investigations
30 March 2016 – 31 March 2017²**

The number of decisions made by the Commissioner to open an investigation into a valid complaint	66
The number of decisions made by the Commissioner not to conduct an investigation into a valid complaint	54
The number of complaints still under consideration at the end of the reporting period	4
Decisions made by the Commissioner to open an investigation into suspected failures to comply with Welsh language standards that did not arise from a complaint	17
Investigations discontinued before determination	14

In the cases where the Commissioner decided not to conduct an investigation into a valid complaint, this was because the complaint did not create suspicion of a failure to comply with a standard because i) the organisation complained about was not responsible for the alleged failure, ii) the organisation complained about was not under a statutory duty to comply with the relevant standard or iii) there was not adequate information about the alleged failure.

² The number of complaints in relation to the Welsh language standards reported on include complaints received on 30 and 31 March 2016. These complaints were not reported on in the 2015-16 annual report as the Welsh language standards procedures had only been in place for two days.

Natur y cwynion a dderbyniwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt

Gall llythyr o gŵyn ymwneud â mwy nag un mater ac felly ni ddylid dehongli bod nifer y cwynion ddaeth i law, a'r ymchwiliadau, yn cyfateb i nifer y safonau gafodd sylw mewn ymchwiliad gan y Comisiynydd. O'r safonau a ystyriwyd yn yr ymchwiliadau gafodd eu hagor roedd pob un ond dau yn ymwneud â methiannau i gydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau, un yn ymwneud â safon llunio polisi ac un yn ymwneud â safonau gweithredu.

Tabl 3: Safonau'r Gymraeg: Gweithgareddau yr ymchwiliwyd iddynt

Gohebiaeth	37
Cyhoeddiadau	15
Gwefannau	20
Arwyddion	12
Gwasanaeth ffôn	25
Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	10
Ffurflenni	9
Cyrsiau a gynigir	32
Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg	18
Arall	14

Mae'r natur y cwynion am gydymffurfiaeth â safonau'n dilyn yr un patrwm â chwynion a dderbyniwyd am gydymffurfiaeth â chynlluniau iaith Gymraeg. Dylid nodi mai gwybodaeth yn seiliedig ar gwynion yr ymchwiliwyd iddynt yn unig sydd yn y tabl hwn.

The nature of the complaints received and investigated

A letter of complaint can refer to more than one matter and therefore one should not conclude that the number of complaints received, and the investigations, correspond with the number of standards considered by the Commissioner in an investigation. Of the standards considered in the investigations opened, all but two related to failures to comply with service delivery standards, one related to policy making standards and one related to operational standards.

Table 3: Welsh Language Standards: Activities investigated

Correspondence	37
Publications	15
Websites	20
Signs	12
Telephone services	25
Face to face meetings	10
Forms	9
Courses offered	32
Raising awareness of Welsh language services	18
Other	14

The nature of the complaints regarding compliance with standards follow the same pattern as complaints received regarding compliance with Welsh language schemes. It should be noted that only information based on complaints investigated are in this table.

Amcan strategol 2: parhad

Tabl 4: Safonau'r Gymraeg: Dyfarnu ar dor safon:

Dyfarniadau mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhaliwyd

Nifer yr ymchwiliadau y dyfarnodd y Comisiynydd arnynt	15
Nifer y dyfarniadau a wnaed mewn perthynas â safonau oedd dan ystyriaeth yr ymchwiliadau	61
O'r safonau y dyfarnwyd arnynt, y nifer lle dyfarnwyd y bu methiant i gydymffurfio	53
Nifer a natur y camau gorfodi a osodwyd	
Ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau er mwyn atal methiant i gydymffurfio â safonau rhag parhau neu gael ei ail-adrodd ³	44
Paratoi cynllun gweithredu	2
Rhoi cyhoedduswydd gan y Comisiynydd	0
Rhoi cyhoedduswydd gan y sefydliad	0
Gosod cosb sifil	0
Peidio â gweithredu ymhellach	5
Nifer o weithiau y rhoddwyd cyngor neu argymhellion	
Rhoi argymhellion	2
Rhoi cyngor	0
O'r safonau y dyfarnwyd arnynt, y nifer lle dyfarnwyd na fu methiant i gydymffurfio	8
Nifer o weithiau y rhoddwyd cyngor neu argymhellion	
Rhoi argymhellion	5
Rhoi cyngor	0
Peidio â gweithredu ymhellach	3

Cyhoeddwyd gwybodaeth am bob dyfarniad a wnaed yn y gofrestr gorfodi sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd.

³ Er enghraifft, rhoi cyfarwyddyd ynghylch trefnu gwasanaeth derbynfa; rhoi cyfarwyddyd ynghylch cyhoeddi gwybodaeth ar wefan; rhoi cyfarwyddyd ynghylch gosod arwyddion newydd.

Strategic Objective 2: continued

Table 4: Welsh Language Standards: Determination regarding breach of standards

Determinations in relation to investigations conducted

The number of investigations determined by the Commissioner	15
The number of determinations made in relation to standards under consideration in the investigations	61
Of the standards determined, the number of determinations made in relation to a breach of standards	53
The number and nature of the enforcement actions imposed	
Requiring steps to be taken in order to prevent the continuation or repetition of the failure to comply ³	44
Preparation of an action plan	2
Publicity by the Commissioner	0
Publicity by the organisation	0
Imposition of a civil penalty	0
No further action	5
The number of instances where advice was given or recommendations made	
Making recommendations	2
Giving advice	0
Of the standards determined, the number of determinations where there was no breach of standards	8
The number of instances where advice was given or recommendations made	
Making recommendations	5
Giving advice	0
No further action	3

Information on each determination made was published on the enforcement register available on the Commissioner's website.

³ For instance, giving directions regarding the arrangements for services at reception; giving directions with regard to publishing information on a website; giving directions regarding placing new signage.

Cynlluniau iaith Gymraeg

Dadansoddiad cwynion cynlluniau iaith Gymraeg

Cyfeiriwyd 112 cwyn o dan y drefn cynlluniau iaith am sefydliadau yn y sector cyhoeddus a chyrrff y Goron at sylw'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn.

Mae adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg yn diffinio cwyn statudol fel un sydd:

- Wedi ei chyflwyno yn ysgrifenedig gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni ei gynllun iaith wedi effeithio'n uniongyrchol arno
- Wedi ei gwneud i'r Comisiynydd o fewn deuddeg mis o ddyddiad y methiant
- Wedi ei chyfeirio at sylw'r corff cyhoeddus y cwynid amdano er mwyn rhoi cyfle rhesymol iddo ystyried ac ymateb

Tabl 5: Cynlluniau iaith Gymraeg: cwynion a dderbyniwyd

Cynlluniau iaith Gymraeg – cwynion 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017	2016/17 ⁴	2015/16 ⁵
Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd	112	151
Cwynion dilys yn erbyn cyrrff cyhoeddus yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	11	21
Cwynion dilys yn erbyn cyrrff y Goron yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	15	18
Cwynion dilys yn erbyn cyrrff cyhoeddus heb fod yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	58	52
Cwynion dilys yn erbyn cyrrff y Goron heb fod yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	28	60

Gwelwyd gostyngiad sylweddol (29%) yn nifer y cwynion a gyflwynwyd yn erbyn sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg o'i gymharu â 2015-16. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn perthynas â chyrrff y Goron (45%).

⁴ Cwynion a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017

⁵ Cwynion a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016

Welsh language schemes

Analysis of complaints in relation to Welsh language schemes

A total of 112 complaints made under language scheme procedures in relation to public sector organisations and Crown bodies were referred to the Commissioner during the year.

Section 18 of the Welsh Language Act defines a statutory complaint as one that has been:

- Submitted in writing by a person who claims to have been directly affected by a failure of a public body to carry out its language scheme
- Made to the Commissioner within twelve months of the date of the failure
- Referred to the public body that is the subject of the complaint in order to provide it with a reasonable opportunity to consider and respond

Table 5: Welsh Language Schemes: complaints received

Welsh Language Schemes – complaints 1 April 2016 – 31 March 2017	2016/17 ⁴	2015/16 ⁵
Total number of complaints received	112	151
Valid complaints against public bodies meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	11	21
Valid complaints against Crown bodies meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	15	18
Valid complaints against public bodies not meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	58	52
Valid complaints against Crown bodies not meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	28	60

A significant decrease (29%) was seen in the number of complaints submitted against organisations that implement Welsh language schemes compared with 2015-16. The largest decrease was in relation to Crown bodies (45%).

⁴ Complaints received between 1 April 2016 and 31 March 2017

⁵ Complaints received between 1 April 2015 and 31 March 2016

Ymchwiliadau cynlluniau iaith

Tabl 6: Cynlluniau iaith Gymraeg: agor ymchwiliadau

**Cynlluniau iaith Gymraeg – ymchwiliadau
1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017**

Nifer y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd i agor ymchwiliad i gwynion dilys	4
Nifer yr achosion y deliwyd â nhw heb gynnal ymchwiliad	22
Penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd i ymchwilio i amheuon o fethiant i gydymffurfio â chynllun iaith Gymraeg lle nad oedd yr amheuaeth yn deillio o gŵyn	1

O'r cwynion dilys a gyflwynwyd, agorwyd 4 ymchwiliad statudol a dyfarnwyd ar 1 ohonynt yn derfynol, ac roedd y broses ymchwilio'n parhau gyda'r tri achos arall.

Yn ogystal, dyfarnwyd ar 3 ymchwiliad a agorwyd yn ystod 2015-16.

Parhaodd nifer yr ymchwiliadau statudol a gynhaliwyd i fethiannau i gydymffurfio â chynlluniau iaith Gymraeg yn gyson â'r nifer a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Welsh language scheme investigations

Table 6: Welsh Language Schemes: opening investigations

**Welsh Language Schemes – investigations
1 April 2016 – 31 March 2017**

The number of decisions made by the Commissioner to open an investigation into valid complaints	4
The number of cases dealt with without carrying out an investigation	22
Decisions made by the Commissioner to investigate suspected failures to comply with a Welsh language scheme that did not arise from a complaint	1

From the valid complaints submitted, four statutory investigations were opened, and one has been determined. The investigation process was ongoing with the other three.

In addition, three investigations opened during 2015-2016 were determined during this year.

The number of statutory investigations conducted into failures to comply with Welsh language schemes remained consistent with the number conducted during recent years.

Natur y cwynion cynlluniau iaith a dderbyniwyd

Tabl 7: Cynlluniau iaith Gymraeg: Cwynion a dderbyniwyd

Gohebiaeth	44
Cyhoeddiadau	2
Gwefannau	14
Arwyddion	2
Gwasanaeth ffôn	10
Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	10
Ffurflenni	7
Arall	27

Gwelwyd mai'r mater y cwynwyd amdano amlaf o ddigon yw gohebiaeth gan sefydliadau, gyda gwefannau, gwasanaethau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gwynion a dderbynnir yn aml hefyd. Dylid nodi bod rhai cwynion yn ymwneud â mwy nag un mater a bod yr wybodaeth yn y tabl hwn yn seiliedig ar bob mater y cyfeiriwyd ato mewn cwyn a dderbyniwyd.

The nature of Welsh language schemes complaints received

Table 7: Welsh language schemes: complaints received

Correspondence	44
Publications	2
Websites	14
Signs	2
Telephone services	10
Face to face meetings	10
Forms	7
Other	27

It became apparent that the issue subject to the most complaints by far was correspondence by organisations, with websites, telephone services and face to face meetings also the subject of regular complaints. It should be noted that some complaints concern more than one issue and that the information in this table is based on all matters referred to in a complaint.

Adolygu penderfyniad y Comisiynydd

Gall achwynydd wneud cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn, a gall apelio, yn dilyn ymchwiliad, i ddyfarniad na fu methiant i gydymffurfio â safon. Cyflwynwyd 5 cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn ac un apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd gan achwynwyr.

Gall sefydliad hefyd apelio yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd o fethiant i gydymffurfio â safon ac yn erbyn camau gorfodi sydd yn eu barn nhw'n afresymol neu'n anghymesur. Ni chyflwynwyd yr un apêl gan sefydliad yn erbyn dyfarniadau a chamau gorfodi yn dilyn ymchwiliad.

Pryderon

Er mwyn gwahaniaethu rhwng cwynion statudol am ddarpariaeth Gymraeg gan sefydliadau sy'n gweithredu safonau neu gynlluniau iaith a chwynion yn erbyn darpariaeth Gymraeg busnesau a sefydliadau nad oes dyletswydd arnynt i ddefnyddio'r Gymraeg, mae'r Comisiynydd yn cyfeirio at yr ail grŵp o gwynion fel 'pryderon'. Er nad oes pwerau gorfodi yn achos pryderon, mae'r Comisiynydd yn gwahodd unigolion i gysylltu â hi i rannu eu profiadau wrth dderbyn gwasanaethau gan y sefydliadau hyn. Drwy berswâd, eir ati i geisio gwella profiad unigolion a datrysiaid problemau.

Cedwir cofnod o'r holl bryderon a chânt eu defnyddio i lywio'r gwaith hybu a hwyluso a cheisio newid polisi ac arferion sefydliadau sector preifat a thrydydd sector.

Derbyniwyd 131 pryder yn ystod y flwyddyn. Roedd y pryderon yn ymwneud â'r sectorau canlynol:

Ariannol	31
Trafnidiaeth	14
Manwerthwyr ac Archfarchnadoedd	11
Cyfleustodau	9
Arall	66

Adroddir ar y gwaith o hybu defnydd o'r Gymraeg gyda'r sector ariannol a'r manwerthwyr ar dudalennau 74 a 76 yr Adroddiad hwn. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r sectorau trafndiaeth a chyfleustodau ar gyfer cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar dudalen 58 yr Adroddiad.

Reviewing the Commissioner's decision

A complainant may apply for a review of the Commissioner's decision not to investigate a complaint, and may appeal, following an investigation, against a determination that there has been no failure to comply with a standard. Five applications were made by complainants for a review of the Commissioner's decision not to investigate a complaint and one appeal was made against the Commissioner's determination.

An organisation may also appeal against the Commissioner's determination of a failure to comply with a standard and against enforcement action that is unreasonable or disproportionate in their view. No appeal was made by any organisations against any determinations or enforcement action following an investigation.

Concerns in 2016-17

In order to differentiate between statutory complaints regarding Welsh language provision by organisations implementing standards or language schemes and complaints regarding the Welsh language provision of businesses and organisations that are not under an obligation to use Welsh, the Commissioner refers to the second group of complaints as 'concerns'. Although there are no enforcement powers in relation to concerns, the Commissioner invites individuals to contact her to share their experiences of services received by these organisations. It is by persuasion that individuals' experiences are improved and problems solved in such cases.

A record of all the concerns raised is kept and used to steer the work of promoting, facilitating and attempting to change the policies and practices of private sector and third sector organisations.

A total of 131 concerns were received during the year. The concerns related to the following sectors:

Financial	31
Transport	14
Retail and Supermarkets	11
Utilities	9
Other	66

The work of promoting the use of Welsh with the financial sector and retailers is outlined on pages 75 and 77 of this Report. The work of preparing the transport and utilities sector for compliance with the Welsh language standards is referred to on page 59 of this Report.

Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg yn datgan y gall unigolyn wneud cais i'r Comisiynydd os yw'n teimlo bod unigolyn, neu sefydliad, wedi ymyrryd â'i ryddid i gyfathrebu ag unigolyn arall yn y Gymraeg.

Roedd un achos yn parhau'n agored ers 2015-16. Terfynwyd yr ymchwiliad oherwydd nad oedd tystiolaeth oedd yn ddigonol nac yn ddibynadwy wedi ei chyflwyno i'r Comisiynydd er mwyn ei galluogi i ddyfarnu a fu ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.

Derbyniwyd 3 chais o'r newydd yn ystod y flwyddyn. Ystyriwyd y tri, ac mae pob achos bellach wedi eu cau. Agorwyd ymchwiliad i un achos oedd yn cwrdd â gofynion adran 111 y Mesur a therfynwyd yr achos cyn dyfarnu a fu ymyrraeth â rhyddid yr unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, o ganlyniad i agor yr ymchwiliad, derbyniodd yr achwynydd ymddiheuriad gan y sefydliad y cwynwyd amdano, ac fe adolygodd y sefydliad ei weithdrefnau a'i ddogfennaeth er mwyn sicrhau nad oes sefyllfa debyg yn codi eto. O ran y ceisiadau eraill, nid oedd tystiolaeth ddigonol gydag un o'r ceisiadau ac nid oedd cais arall yn cwrdd â gofynion adran 111 y Mesur.

O'r 18 o geisiadau perthnasol a dderbyniwyd ers sefydlu'r Comisiynydd yn 2012 noder nad yw 14 cais yn cyd-fynd â diffiniad adran 111 Mesur y Gymraeg. Ers ei sefydlu mae'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad a dyfarnu ar ddau achos o dan adran 111 y Mesur.

Freedom to use Welsh

The Welsh Language Measure states that an individual may apply to the Commissioner if they are of the view that an individual, or organisation, has interfered with their freedom to communicate in Welsh with another individual.

One case was still open from 2015-16. The investigation was discontinued as no sufficient or reliable evidence was presented to the Commissioner to enable her to determine whether there had been an interference with the freedom of an individual to use Welsh.

Three new applications were received during the year. All applications received were considered and each case is now closed. An investigation was opened into one case that met the requirements of section 111 of the Measure and the case was discontinued before determining whether there was an interference with an individual's right to use Welsh. However, as a result of opening the investigation, the complainant received an apology from the organisation in question, and that organisation undertook a review of its procedures and documentation in order to ensure that a similar situation does not arise in future. With regard to the other applications, there was not sufficient evidence with one, and the other did not meet the requirements of section 111 of the Measure.

In respect of the 18 relevant applications received since the establishment of the Commissioner in 2012, 14 applications do not meet the defined requirements of section 111 of the Welsh Language Measure. Since being established, the Commissioner has conducted one investigation and determined two cases under section 111 of the Measure.

Amcan strategol 3: Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio

Mae'r gwaith o osod safonau wedi ei rannu rhwng y Comisiynydd, y Llywodraeth a'r Cynulliad. Y Llywodraeth sy'n llunio cynnwys y safonau, mewn rheoliadau drafft. Mae dadl a phleidlais ar eu cymeradwyo yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae pleidlais i gymeradwyo'r rheoliadau yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad, ac yn galluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Ar ôl ymgynghori â'r sefydliad, mae'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau ac erbyn pa bryd.

Ar ôl gosod y safonau, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth â nhw. Mae Fframwaith Rheoleiddio'r Comisiynydd, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2016, yn egluro sut mae'n cynnal y gwaith o reoleiddio safonau'r Gymraeg.

Gosod safonau

Er mwyn rhoi trefn ar y broses, lluniodd y Comisiynydd raglen cyflwyno safonau, gan rannu sefydliadau i wahanol gylchoedd. Yn ystod 2014-15 a 2015-16, fe gynhaliodd ymchwiliadau safonau gyda sefydliadau yn y cylchoedd hyn. Gan nad yw'r gwaith o gyflwyno rheoliadau wedi digwydd yn yr un drefn, eleni, yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, adroddir ar gynnydd yn ôl y rheoliadau a sectorau yn hytrach na chylchoedd.

[Rheoliadau Rhif 1 \(cymeradwywyd gan y Cynulliad ar 22 Mawrth 2015\)](#)

26 sefydliad: cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol Cymru ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

- ➡ **30 Mawrth 2016: y safonau cyntaf yn dod i rym**
- ➡ **rhagor o safonau yn dod i rym yn ystod 2016-17**
- ➡ **5 sefydliad yn cyflwyno cais i herio yn ystod 2016-17**
- ➡ **31 Mawrth 2017: y broses ddyfarnu yn parhau**

Strategic Objective 3: To impose statutory duties and regulate them

The work of imposing standards is shared between the Commissioner, the Government and the Assembly. The Government produces the contents of the standards in draft regulations. A debate and vote on approval of the draft regulations is held in the National Assembly's plenary session. A vote to approve the regulations makes the standards specifically applicable to the organisation, and allows the Commissioner to issue them with a compliance notice.

After consultation with the organisation, the Commissioner issues them with a notice requiring them to comply with standards and by which date or dates.

After imposing the standards, the Commissioner is responsible for regulating compliance with them. The Commissioner's Regulatory Framework, which came into force on 1 April 2016, explains how the Commissioner carries out Welsh language standards regulation.

Imposition of standards

In order to bring order to the process, the Commissioner drew up a programme of standards imposition, grouping organisations into different rounds. During 2014-15 and 2015-16, standards investigations were held with organisations in these rounds. As the regulations have not been introduced in the same way this year as in previous years, progress is reported according to regulations and sectors rather than rounds.

[Regulations Number 1 \(approved by the Assembly on 22 March 2015\)](#)

26 organisations: county councils and county borough councils in Wales and national park authorities.

- ➡ **30 March 2016: the first standards come into force**
- ➡ **further standards come into force during 2016-17**
- ➡ **5 organisations make applications to challenge during 2016-17**
- ➡ **31 March 2017: determination process continues**

Amcan strategol 3: parhad

Rheoliadau Rhif 2 (cymeradwywyd gan y Cynulliad ar 9 Chwefror 2016)

32 o sefydliadau: cyrff cenedlaethol Cymreig, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Estyn, BBC a'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom).

-  **31 Mawrth – 26 Mai 2016: ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft**
-  **25 Gorffennaf a 30 Medi 2016: rhoi hysbysiad cydymffurfio terfynol**
-  **25 Ionawr a 30 Mawrth 2017: safonau'n dod yn weithredol**
-  **9 sefydliad yn cyflwyno cais i herio**
-  **31 Mawrth 2017: y broses ddyfarnu yn parhau**

Rheoliadau Rhif 4 a 5 (cymeradwywyd gan y Cynulliad ar 15 Mawrth 2016)

6 sefydliad yn Rheoliadau Rhif 4: tribiwnlysoedd Cymru a'r Cyngor Gweithlu Addysg.

16 sefydliad yn Rheoliadau Rhif 5: Heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu, Awdurdodau'r Heddlu ac Awdurdodau Tân ac Achub.

-  **1 Mehefin – 29 Gorffennaf 2016: ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft**
-  **30 Medi 2016: rhoi hysbysiadau cydymffurfio terfynol**
-  **30 Mawrth 2017: safonau'n dod yn weithredol**
-  **12 sefydliad yn cyflwyno cais i herio**
-  **31 Mawrth 2017: y broses ddyfarnu yn parhau**

Strategic Objective 3: continued

Regulations Number 2 (approved by the Assembly on 9 February 2016)

32 organisations: national bodies of Wales, including Natural Resources Wales, the National Library of Wales, Estyn, the BBC and the Office of Communications (Ofcom).

-  **31 March – 26 May 2016: consultation on draft compliance notices**
-  **25 July and 30 September 2016: final compliance notices issued**
-  **25 January and 30 March 2017: standards come into force**
-  **9 organisations make applications to challenge**
-  **31 March 2017: determination process continues**

Regulations Numbers 4 and 5 (approved by the Assembly on 15 March 2016)




6 organisations in Regulations Number 4: Tribunals in Wales and the Education Workforce Council.

16 organisations in Regulations Number 5: Police forces, Police Commissioners, Police Authorities and Fire and Rescue Authorities.

-  **1 June – 29 July 2016: consultation on draft compliance notices**
-  **30 September 2016: final compliance notices issued**
-  **30 March 2017: standards come into force**
-  **12 organisations make applications to challenge**
-  **31 March 2017: determination process continues**

Rheoliadau Rhif 6 (cymeradwywyd gan y Cynulliad ar 31 Ionawr 2017)

27 sefydliad: sefydliadau a chorfforaethau addysg bellach, sefydliadau a chorfforaethau addysg uwch, Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

-  **Mis Mawrth 2017: cynnal sesiynau briffio ar gyfer y sefydliadau**
-  **Mai – Mehefin 2017: bwriad cychwyn ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft am gyfnod o 8 wythnos**
-  **Mis Medi 2017: bwriad rhoi hysbysiadau cydymffurfio terfynol i'r sefydliadau**

Safonau cyrff iechyd a chyrrff proffesiynau iechyd

14 Gorffennaf – 14 Hydref 2016: Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar reoliadau drafft ar gyfer sefydliadau oedd yn cynnwys byrddau iechyd lleol GIG Cymru, ymddiriedolaethau'r GIG, y Cyngorau Iechyd Cymuned, Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Ymgynghorwyd ar yr un pryd ar y bwriad i ddiwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) i gynnwys y cyrff canlynol: Cyngor Gofal Cymru, y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Cyflwynodd y Comisiynydd ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r ymateb wedi ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Regulations Number 6 (approved by the Assembly on 31 January 2017)

27 organisations: further education institutions and corporations, higher education institutions and corporations, Career Choices Dewis Gyrfa Limited and the Higher Education Funding Council for Wales.

-  **March 2017: hold briefing sessions for organisations**
-  **May – June 2017: start consultation on draft compliance notices for a period of 8 weeks**
-  **September 2017: issue final compliance notices to organisations**

Standards for health bodies and health professions bodies

14 July – 14 October 2016: the Welsh Government consulted on draft regulations for organisations including local health boards, NHS Wales, NHS trusts, Community Health Councils, the Board of the Community Health Councils in Wales and the NHS Business Services Authority.

At the same time they consulted on the intention of amending the Welsh Language Standards Regulations (Number 4) to include the following bodies: the Care Council for Wales, the General Chiropractic Council, the General Dental Council, the General Medical Council, the General Optical Council, the General Osteopathic Council, The General Pharmaceutical Council, the Health and Care Professions Council, the Health and Social Care Professional Standards Authority, the Nursing and Midwifery Council.

The Commissioner published her response to this consultation. The response is published on the Commissioner's website.

Sefydliadau eraill

Ymgynghorodd y Llywodraeth ar reoliadau drafft ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth rhwng 25 Tachwedd 2016 – 17 Chwefror 2017. Cyflwynodd y Comisiynydd ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r ymateb wedi ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Yn dilyn cynnal ymchwiliad safonau i'r sectorau bysiau a threnau a gwasanaethau cysylltiedig yn 2015-16, fe gyhoeddodd y Comisiynydd yr adroddiadau safonau ar 1 Gorffennaf 2016. Roedd 125 o gwmnïau bysiau yn rhan o'r ymchwiliad i ddarparwyr gwasanaeth bysiau. Roedd 4 cwmni yn rhan o'r ymchwiliad safonau i ddarparwyr gwasanaethau rheilffyrdd. Derbyniwyd ymatebion gan 42 cwmni bus a 4 cwmni trenau. Derbyniwyd ymatebion gan 264 aelod o'r cyhoedd.

Yn yr un modd, yn dilyn ymchwiliad safonau'r Comisiynydd i'r sectorau nwy a thrydan a gwasanaethau cysylltiedig fe gyhoeddwyd yr adroddiadau safonau ar 24 Chwefror 2017. Roedd 189 o sefydliadau yn rhan o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd i'r sectorau ynni. Derbyniwyd ymatebion gan 22 cwmni nwy a 25 cwmni trydan yn ogystal â 21 aelod o'r cyhoedd.

Disgwylir cyhoeddiad gan y Llywodraeth am y camau nesaf.

Rheoleiddio safonau

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu rhaglen reoleiddio er mwyn deall sut mae sefydliadau'n perfformio er mwyn eu cefnogi i gydymffurfio'n dda. Mae'n fodd o weithio ar ran defnyddwyr ac adrodd ar eu profiadau iaith ac yn gyfle i'r Comisiynydd roi barn annibynnol ar y pethau hyn i gyd heb i hynny ddigwydd yn sgil camau gorfodi.

Other organisations

The Government consulted on draft regulations for water and sewerage companies between 25 November 2016 and 17 February 2017. The Commissioner published her response to this consultation. The response is published on the Commissioner's website.

Following a standards investigation into the bus and train sectors and related services during 2015-16, the Commissioner published the standards reports on 1 July 2016. A total of 125 bus companies were part of the investigation into bus service providers. Four companies were part of the standards investigation into rail service providers. Responses were received from 42 bus companies and four train companies. Responses were received from 264 members of the public.

Similarly, following the Commissioner's standards investigation into the gas and electricity sector and related services, the standards report was published on 24 February 2017. A total of 189 organisations were part of the investigations conducted into the energy sectors. Responses were received from 22 gas companies and 25 electricity companies, as well as from 21 members of the public.

The Government's announcement on the next steps is expected.

Standards regulation

The Commissioner implements a regulatory programme in order to gain an understanding of how organisations are performing to support good compliance. It is a way of working on behalf of service users and reporting on their language experiences, and it is also an opportunity for the Commissioner to give an independent opinion on these issues without taking any enforcement action.

Gweithredu ar ganfyddiadau Adroddiad Sicrwydd 2016

Cyhoeddodd y Comisiynydd ei hail adroddiad sicrwydd, 'Amser gosod y safon' yn y Senedd ar 6 Hydref 2016, dan nawdd y Llywydd, Elin Jones AC. Sail yr adroddiad oedd canlyniadau cyfres o arolygon profi gwasanaethau ac arolygon thematig a sesiynau ymgysylltu â defnyddwyr.

Bwriad yr adroddiad sicrwydd yw rhoi cymorth i sefydliadau cyhoeddus ddeall beth yw realiti profiad y bobl y maent yn eu gwasanaethu. Y nod yw bod y canfyddiadau'n eu sbarduno i sianelu eu hymdrechion yn effeithiol er mwyn gwella profiad siaradwyr Cymraeg.

Barn y Comisiynydd yn yr adroddiad oedd bod angen i sefydliadau:

- wneud mwy i ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn y Gymraeg
- cymryd cyfrifoldeb dros gynnig dewis iaith yn rhagweithiol
- mynd ati o ddifrif i gynllunio'r gweithlu er mwyn gallu diwallu anghenion cymdeithas â dwy iaith.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad sicrwydd, cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda sefydliadau i ymateb i'r canlyniadau. Yn benodol, trafodwyd pwysigrwydd gwybod pa sgiliau sy'n bodoli o fewn gweithlu sefydliad, deall sut orau i ofyn am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio, a datblygu sgiliau Cymraeg gweithlu presennol. Cynhaliwyd chwe gweithdy ym Mangor, Caerdydd a Chaerfyrddin yn ystod misoedd Hydref 2016 ac Ionawr 2017. Mynychodd 145 o swyddogion o 81 sefydliad cyhoeddus y gweithdai.

Ar 12 Hydref 2016, ymddangosodd y Comisiynydd a swyddogion o flaen y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i drafod cynnwys a phrif ganfyddiadau'r adroddiad sicrwydd, a chafodd ei drafod ar lawr y Senedd ar 15 Hydref 2016.

"Mae'r Adroddiad [...], 'Amser gosod y safon', gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn un pwysig [...], ac mae'r Comisiynydd yn hwnnw yn dweud bod angen i sefydliadau newid gêr a darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da a fydd yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gynyddu eu defnydd o'r iaith yn eu bywydau pob dydd."

Siân Gwenllian AC wrth drafod Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, 18 Hydref 2016.

Action following the findings of the 2016 Assurance Report

The Commissioner published her second assurance report 'Time to set the standard' in the Senedd on 6 October 2016, in a meeting sponsored by the Llywydd, Elin Jones AM. The report was based on a series of reviews to test services and thematic reviews together with user engagement sessions.

The purpose of the assurance report is to assist public organisations in understanding the reality of the experiences of the people to whom they deliver services. The aim is that the findings prompt organisations to channel their efforts effectively in order to improve the experience of Welsh speakers.

In the report, the Commissioner outlined her view that organisations needed to:

- do more to provide services of a high standard through the medium of Welsh
- take responsibility for actively offering language choice
- conduct rigorous workforce planning in order to meet the needs of a bilingual society.

Following the publication of the assurance report, a series of workshops was held with organisations in response to the results. Specifically, the workshops dealt with the importance of knowing which skills were available within an organisation's workforce, understanding how best to specify Welsh language skills when recruiting staff, and developing the skills of the existing Welsh-speaking workforce. Six workshops were held in Bangor, Cardiff and Carmarthen between October 2016 and January 2017. A total of 145 officers from 81 public organisations attended the workshops.

On 12 October 2016, the Commissioner and her officers appeared before the Culture, Welsh Language and Communications Committee to discuss the main findings of the assurance report. It was also the subject of debate on the floor of the Senedd on 15 October 2016.

"Time to set the standard', by the Welsh Language Commissioner, is another important report, and the Commissioner in that report states that institutions need to change gear and to provide public services of a high quality that would enable Welsh speakers to increase their use of the Welsh language in their daily lives."

Siân Gwenllian AM, while discussing the Commissioner's Annual Report, 18 October 2016.

Gwella profiad defnyddwyr

Yn ystod 2016-17, bu'r Comisiynydd yn parhau â'r gwaith o ganfod beth yw realiti profiad defnyddwyr y Gymraeg. Y nod y tro hwn oedd canfod a yw'r profiadau wedi gwella wrth dderbyn gwasanaethau gan sefydliadau cyhoeddus.

Aed ati i gasglu'r wybodaeth drwy gynnal arolygon i brofi gwasanaethau, cynnal astudiaethau thematig, ymgysylltu â defnyddwyr a thrwy dderbyn adroddiadau blynyddol safonau ac adroddiadau monitro gweithrediad cynlluniau iaith gan sefydliadau.

Arolygon i brofi gwasanaethau

Gosododd y Comisiynydd ei hun yn esgidiau'r defnyddwyr drwy gynnal cyfres o arolygon siopwr cudd. Canolbwyntiodd yr arolygon ar y meysydd canlynol:

- Defnydd cyrff o gyfryngau cymdeithasol
- Galwadau ffôn i sefydliadau
- Gohebiaeth a anfonir at sefydliadau
- Gwefannau

Astudiaethau thematig a gynhaliwyd

Er mwyn bod â darlun manwl ac eang o'r ffordd y caiff gwasanaethau Cymraeg eu cyflenwi, ac i fod mewn sefyllfa i gynnig argymhellion i sefydliadau am sut i gryfhau a gwella eu darpariaeth Gymraeg, cynhaliwyd tair astudiaeth thematig. Roeddent yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg
- Llunio a chyhoeddi strategaeth pum mlynedd sy'n esbonio sut mae sefydliadau'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardal
- Gofynion ieithyddol swyddi gwag a newydd

Mynd i'r afael â phroblemau systemig

Gweithiwyd gyda deg sefydliad i gynnal awdit mewn cysylltiad â chofnodi dewis iaith ar rai systemau electronig mewn amgylchiadau lle roedd hynny yn peri anhawster oedd y tu hwnt i reolaeth y sefydliadau hynny. Bydd y gwaith yn parhau a'r Comisiynydd yn ceisio cefnogi sefydliadau wrth iddynt geisio atebion ar y cyd.

Improving the user experience

During 2016-17, the Commissioner continued to investigate the reality of Welsh-speaking users' experience. The aim this time was to find whether people's experiences of the provision of public sector services had improved.

Information was gathered through reviews of service provision, thematic studies, user engagement and via annual reports on standards and Welsh language scheme annual monitoring reports from organisations.

Surveys of service provision

With a series of mystery shopper exercises, the Commissioner placed herself in the shoes of service users. The surveys focused on the following areas:

- The use of social media by organisations
- Telephone calls to organisations
- Correspondence sent to organisations
- Websites

Thematic studies undertaken

In order for the Commissioner to gain a detailed and wide-ranging view of the way in which Welsh language services are delivered, and to be in a position to provide recommendations to organisations on how to strengthen and improve their Welsh medium provision, three thematic studies were conducted. The studies focussed on the following areas:

- Raising awareness of Welsh language services
- Producing and publishing a five-year strategy setting out how organisations propose to promote the Welsh language and to facilitate the use of Welsh more widely in their area
- Language requirements of vacancies and new posts

Dealing with systemic problems

The Commissioner worked with ten organisations to conduct an audit in relation to recording language choice on certain electronic systems in instances where this was problematic and beyond the control of organisations themselves. This work will continue and the Commissioner will continue to support organisations as they seek solutions together.

Ymgysylltu â defnyddwyr

Mae gwranddo ar brofiadau defnyddwyr yn rhan ganolog o'r gwaith rheoleiddio. Er mwyn gwranddo ar brofiadau defnyddwyr, cynhaliwyd grwpiau trafod ym mis Gorffennaf 2016 a mis Rhagfyr 2016. Cynhaliwyd y sesiynau yng Nghaernarfon, Wrecsam, Caerdydd, Caerfyrddin, Rhuthun, Llangefni, Merthyr Tudful ac Aberteifi, gan ddenu tua 60 o fynychwyr i'r sesiynau.

Yn ystod gwanwyn 2016 a 2017, gofynnodd y Comisiynydd nifer o gwestiynau am wasanaethau Cymraeg cyrff cyhoeddus drwy Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research. Mae'r arolwg ffôn yn holi 500 o bobl sy'n cynrychioli trawstoriad o siaradwyr Cymraeg. Diben gofyn cwestiynau drwy'r arolwg ffôn oedd sicrhau bod gan y Comisiynydd ddata meintiol ynghylch barn a phrofiadau sampl cynrychioladol o siaradwyr Cymraeg. Drwy wneud hynny'n flynyddol, gellir adnabod tueddiadau dros amser. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff cyhoeddus, argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg, ac agweddau at wasanaethau Cymraeg. Wrth ymateb i'r arolwg, dywedodd 76% o siaradwyr Cymraeg eu bod yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella.

Casgliadau

Caiff yr wybodaeth ei chyhoeddi yn Adroddiad Sicrwydd 2017 yn ystod tymor yr hydref, ond gellir cyhoeddi mai'r prif ganfyddiadau yw:

- bod profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg wedi gwella
- bod angen gwneud newidiadau pellach i sicrhau nad yw profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn llai ffafriol
- bod angen i gyrff wneud mwy i hybu eu gwasanaethau Cymraeg

Annog arfer da

Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i wella eu darpariaeth mae'r Comisiynydd yn rhannu arfer da ac yn cynnal digwyddiadau addysgol, ac fel rhan o'r gwaith hwn mae wedi ymuno â fforwm Arfer Da Cymru. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau addysgol am ddarparu gwasanaethau drwy gontract yn ystod y flwyddyn.

Engagement with users

Listening to user experience is a central part of the regulatory activities. To listen to the experiences of users, focus groups were held during July 2016 and December 2016. The sessions were held in Caernarfon, Wrexham, Cardiff, Carmarthen, Ruthin, Llangefni, Merthyr Tydfil and Cardigan, attracting around 60 people to the sessions.

During spring 2016 and 2017, through the Omnibus Survey of Welsh Speakers conducted by Beaufort Research, the Commissioner asked a number of questions regarding the Welsh language services of public bodies. The telephone survey seeks the views of 500 people representing a cross-section of Welsh speakers. The purpose of the questions asked via the telephone survey was to ensure that the Commissioner has quantitative data on opinions and the experiences of a representative sample of Welsh speakers. In conducting this survey annually, it will be possible to identify trends over time. The questions related to opportunities to use the Welsh language with public bodies, the availability and quality of Welsh language services and attitudes towards Welsh language services. Responding to the survey, 76% of Welsh speakers agreed that public organisations' Welsh language services are improving.

Conclusions

The information will be published in the 2017 Assurance Report during the autumn, but the main findings can be revealed as follows:

- Welsh language service users' experiences have improved
- further changes are needed to ensure that the experience of those using Welsh language services are no less favourable
- bodies need to do more to promote their Welsh language services

Encouraging good behaviour

To support organisations to improve their Welsh language provision, the Commissioner shares good practice and holds educational events, and as part of this work has joined the Good Practice Wales forum. A series of educational events relating to contracted service provision were held during the year.

Cyngor ar osod contractau gwasanaethau cyhoeddus

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Comisiynydd fersiwn diwygiedig o'i dogfen gyngor, 'Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus'. Pwrpas y ddogfen yw cynnig cyngor a chymorth i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau'n ddwyieithog am sut i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg ym mhob agwedd ar gontractio gwasanaethau cyhoeddus a nwyddau. Yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2017, cynhaliwyd gweithdai oedd yn mynd i'r afael â chynnwys y ddogfen, dan ofal un o gyfreithwyr cwmni Eversheds.

- 84 o swyddogion o 58 sefydliad yn mynychu'r sesiynau
- 96.5% o'r mynychwyr yn dweud bod cynnwys y sesiwn yn dda neu'n dda iawn
- 93.1% yn dweud bod cynnwys y sesiynau'n berthnasol iawn neu'n eithaf perthnasol i'w gwaith
- 100% yn dweud eu bod yn deall y ddogfen gyngor yn well o ganlyniad i fynychu'r gweithdai

Gwaith Ymatebol

Adroddiad Etholiadau

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Etholiad Cyffredinol 2015, cynhaliodd y Comisiynydd arolwg pellach yn ystod Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd 2016. Sail yr arolwg oedd craffu ar wefannau awdurdodau lleol, Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, y Comisiwn Etholiadol a gwefannau unigol Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru. Gwiriwyd hefyd y cyhoeddiadau llafar cyhoeddus a wnaed ar ganlyniadau'r etholiadau ar draws etholaethau a rhanbarthau drwy gyfrwng darllediad BBC Cymru.

Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliadau canlynol:

- cynnydd yn yr ystod o ddogfennau ar gael yn Gymraeg
- pob ffurflen gofrestru wedi eu cynhyrchu yn Gymraeg, ond eu hargaeledd a hygyrchedd yn annigonol
- gwybodaeth gyffredinol neu gyfarwyddiadau ddim ar gael yn Gymraeg ar bob achlysur
- anghysondeb wrth gyhoeddi'r canlyniadau'n ddwyieithog

Advice on contracting out public service contracts

In January 2017, the Commissioner published a revised version of the advice document, 'Contracting out Public Service Contracts'. The purpose of this document is to offer advice and assistance to organisations that provide services bilingually on how to consider the needs of Welsh speakers in all aspects of contracting public services and goods. During February and March 2017, the Commissioner arranged workshops focusing on the contents of the document, held by a solicitor from Eversheds.

- 84 officers from 58 organisations attending the sessions
- 96.5% of the attendees said the content of the session was good or very good
- 93.1% said the content of the sessions was very relevant or fairly relevant to their work
- 100% said they better understood the advice document as a result of attending the workshops

Responsive Work

Elections Report

Following the publication of the General Election Report 2015, the Commissioner conducted a further review during the 2016 Elections of the National Assembly for Wales and the Police and Crime Commissioners. The review was based on scrutiny of the local authority websites, the Government's Digital Services, the Electoral Commission and the individual websites of the Police and Crime Commissioners in Wales. A review was also held of the public declarations of the election results across the constituencies and regions via BBC Wales broadcasting.

The report found:

- an increase in the range of documents available in Welsh
- each registration form was published in Welsh but their availability and accessibility was insufficient
- general information or instructions were not available in Welsh on every occasion
- inconsistency in declaring the results bilingually

Seminarau Briffio Safonau

Cynhaliwyd tair seminar briffio safonau gyda'r sefydliadau sy'n ddarostyngedig o'r newydd i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhifau 2, 4 a 5. Pwrpas y seminarau hyn oedd cyflwyno gwybodaeth am Fframwaith Rheoleiddio a Pholisi Gorfodi'r Comisiynydd.

- 59 o swyddogion o 47 sefydliad yn mynychu
- 94.8% yn dweud bod y seminarau'n dda neu'n dda iawn
- 100% yn dweud bod cynnwys y seminarau naill ai'n eithaf perthnasol neu'n berthnasol iawn i'w gwaith

Standards Briefing Seminars

Three standards briefing seminars were held with organisations subject to the new Welsh Language Standards Regulations Numbers 2, 4 and 5. The purpose of these seminars was to present information on the Commissioner's Regulatory Framework and Enforcement Policy.

- 59 officers from 47 organisations attended
- 94.8% said that the seminars were good or very good
- 100% said that the content of the seminars was either fairly relevant or very relevant to their work

Amcan strategol 4: Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol





Mae'r Comisiynydd yn annog, hybu a hwyluso'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn pob agwedd ar fywyd. Mae hyn ar sail wirfoddol gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector. Gwna hyn drwy ddangos gwerth y Gymraeg i'r sefydliadau, a'u cefnogi i gynyddu defnydd o'r iaith.

Mae hefyd yn gweithio i sicrhau bod yr isadeiledd, sef yr adnoddau addas, ar gael i unigolion a sefydliadau ddefnyddio'r iaith. Mae hyn yn cynnwys technoleg gwybodaeth, adnoddau ieithyddol fel geirfa ac enwau lleoedd safonol.

Cynllun Hybu'r Gymraeg

Cynllun sy'n galluogi busnesau a sefydliadau trydydd sector i gynllunio eu defnydd o'r Gymraeg gyda phwyslais ar geisio cynyddu'r defnydd hwnnw dros amser.

Mae pedwar cam i'r cynllun, sef:

-  **CAM 1**
Holiadur i asesu defnydd presennol o'r Gymraeg
-  **CAM 2**
Yn seiliedig ar atebion i'r holiadur, bydd y system yn creu cynllun hybu gyda syniad o'r lefel o ddarpariaeth bresennol (o 1 i 3) ym mhob maes
-  **CAM 3**
Gall sefydliadau osod targedau yn eu cynllun hybu ar gyfer cyrraedd y lefel nesaf, a gwella'u darpariaeth
-  **CAM 4**
Cyflwyno'r cynllun gweithredu i swyddogion y Comisiynydd

Yn 2016-17 roedd 183 sefydliad wedi llenwi'r holiadur.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd roedd 90 sefydliad yn y broses o baratoi cynllun hybu a 33 wedi rhannu fersiwn terfynol o'u cynllun hybu gyda'r Comisiynydd.

Strategic Objective 4: To encourage, promote and facilitate the use of the Welsh language on a voluntary basis





The Commissioner encourages, promotes and facilitates opportunities to use Welsh in all aspects of life. This is done on a voluntary basis for the majority of organisations in the private sector and third sector. The Commissioner highlights the value of the Welsh language to organisations and supports them in increasing their use of the language.

She also works to ensure that the infrastructure, i.e. the necessary resources, is available for individuals and organisations to use the language. This includes information technology, language resources such as vocabularies and standardised place names.

Welsh language Progress Plan

This is a plan to enable third sector organisations and businesses to plan their use of the Welsh language with the emphasis on seeking to increase that use over time.

There are four steps to the plan:

-  **STEP 1**
A questionnaire to assess current use of Welsh
-  **STEP 2**
Based on the responses to the questionnaire, the system will create an action plan with an idea of the current level of provision (from 1 to 3) in each area
-  **STEP 3**
Organisations can set targets in the plan to aim for the next level, improving the provision
-  **STEP 4**
Present the progress plan to the Commissioner's officers

In 2016-17, 183 organisations had completed the questionnaire.

At the end of the reporting period, 90 organisations were in the process of preparing a progress plan and 33 had shared the final version of their progress plan with the Commissioner.

Rhoi arweiniad i sefydliadau**Defnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon**

Lansiwyd pecyn 'Y Gymraeg: Amdani' ym Mharc y Ddraig (Canolfan Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru) ar 25 Mai 2016. Mae'r pecyn yn arweiniad ymarferol i glybiau a chymdeithasau chwaraeon ar ddatblygu gweithgareddau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Cafodd ei ddatblygu ar y cyd â Chwaraeon Cymru ac yn sgil trafodaethau â gwahanol gymdeithasau chwaraeon dros gyfnod.

Gweithiodd y Comisiynydd gyda chymdeithasau unigol i deilwra'r pecyn i'w campau nhw, a chynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Bangor i godi ymwybyddiaeth o'r pecyn ymysg clybiau lleol ac unigolion sy'n ymwneud â chwaraeon.

Criced

- Datblygwyd cardiau fflach penodol ar gyfer y gamp

Rygi

- Hwyluso digwyddiad yn y Sioe Fawr i roi cyfle i URC gyflwyno eu syniadau a'u cynlluniau o ran datblygu'r defnydd o'r Gymraeg
- Cydweithio ar ddatblygiadau a gaiff eu cyhoeddi yn 2017-18

Pêl-droed

- Helpu'r Ymddiriedolaeth a Chymdeithas Bêl-droed Cymru i lunio sloganau Cymraeg i'w defnyddio ar gyfer pencampwriaethau'r Ewros yn haf 2016

Hyfforddiant

Mae swyddogion y Tîm Hybu'n cynnal hyfforddiant i sefydliadau trydydd sector ar sut i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg.

Cyflwynir ystadegau perthnasol am yr iaith, y cyd-destun cyfreithiol, arferion da, ymchwil defnyddiol, ac yna ceir cyfle i'r mynychwyr drafod mewn grwpiau sut i roi pethau ar waith yn eu sefydliadau nhw.

- Cynhaliwyd 8 sesiwn hyfforddiant
 - Mynychodd dros 50 o sefydliadau
 - 69% yn dweud bod y sesiynau'n ardderchog
 - 79% yn dweud bod cynnydd yn eu gwybodaeth ar ôl mynychu'r sesiwn
-

Guidance for organisations**The use of Welsh in sport**

The pack 'Welsh: Give it a go!' was launched at Dragon Park (the Welsh Football Trust's Centre) on 25 May 2016. The pack gives practical guidance for sports clubs and societies on developing activities in Welsh or bilingually. It was developed in association with Sport Wales and following discussions with various sports associations.

The Commissioner worked with individual associations to tailor the package for their disciplines, and regional events were held in Carmarthen, Cardiff and Bangor to raise awareness of the pack with local sports clubs and individuals.

Cricket

- Specific flash cards were developed for the sport

Rugby

- An event was facilitated at the Royal Welsh Show to give the WRU an opportunity to present their ideas and plans for the development of the use of Welsh
- Collaboration on developments to be announced in 2017-18

Football

- The Football Association of Wales and the Trust were supported with the work of developing Welsh slogans to be used for the European championship in the summer of 2016

Training

Officers in the Promotion Team provide training for third sector organisations on how to develop their use of Welsh.

They are presented with relevant statistics on the language, the legal context, good practice, useful research, and attendees are given an opportunity in group discussions to talk about how to put things into practice in their own organisations.

- 8 training sessions were held
 - Over 50 organisations attended
 - 69% said that the sessions were excellent
 - 79% said their knowledge had increased after having attended the session
-

Gwasanaeth prawfddarllen

Un math o gymorth ymarferol mae'r Comisiynydd yn ei gynnig i fusnesau a sefydliadau trydydd sector yw gwasanaeth prawfddarllen yn rhad ac am ddim. Gall sefydliadau anfon testun Cymraeg hyd at 1,000 o eiriau at y Comisiynydd i'w brawfddarllen, a chaiff y gwaith ei gywiro a'i anfon yn ôl gyda sylwadau neu awgrymiadau. Nod y cynllun yw datblygu sgiliau dwyieithog y gweithlu a magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gan roi sicrwydd ar yr un pryd bod y gwaith yn gywir cyn argraffu.

- Dros 100 o fusnesau a sefydliadau'n defnyddio'r gwasanaeth
- Prawfddarllen bwydlenni, hysbysebion, arwyddion, trydariadau, a phosteri ymysg eraill

Ymchwil

Defnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd

Cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ymchwil i agweddau cwsmeriaid i ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd yn y Senedd ar 2 Chwefror 2017. Noddwyd y digwyddiad gan Jeremy Miles AC ac roedd cynrychiolwyr o'r archfarchnadoedd a Chonsortium Manwerthu Cymru'n bresennol.

Dyma'r prif ganfyddiadau:

- 68% yn hoffi gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan archfarchnadoedd yng Nghymru
- 83% yn cytuno â'r gosodiad bod defnydd o'r Gymraeg yn dangos cefnogaeth tuag at ddiwylliant Cymraeg

Un canlyniad i'r adroddiad oedd sefydlu fforwm ar gyfer penaethiaid yr archfarchnadoedd yng Nghymru i drafod sut gallant gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a chyflwyno'r Gymraeg fwyfwy yn eu siopau ac ar wefannau ac apiau siopa ar-lein. Y bwriad yw cynnal dau gyfarfod y flwyddyn o'r fforwm.

Proofreading service

One method of practical support given by the Commissioner to businesses and third sector organisations is a free proofreading service. Organisations may send Welsh language text of up to 1,000 words to the Commissioner for proofreading, and the work is checked and returned with comments or suggestions. The aim of this scheme is to develop bilingual skills in the workplace and to raise confidence in the use of Welsh, but at the same time giving assurance that the work is correct before being published.

- Over 100 businesses and organisations use this service
- Proofreading menus, adverts, signage, tweets, and posters amongst other items

Research

The use of Welsh by supermarkets

The Commissioner published a research report into the attitudes of customers to the use of Welsh by supermarkets at the Senedd on 2 February 2017. The event was sponsored by Jeremy Miles AM and representatives from the supermarkets and the Welsh Retail Consortium were present.

The main findings were:

- 68% of people liked to see Welsh being used by supermarkets in Wales
- 83% agreed with the statement that using Welsh showed support for Welsh culture

As a result of the report, a forum was established for the heads of the supermarkets in Wales to discuss how they could increase their Welsh language provision and to introduce more Welsh into their shops, websites and shopping apps. The intention is for the forum to meet twice a year.

Cysylltiadau strategol

Dros y blynyddoedd a fu, creodd y Comisiynydd gysylltiadau strategol gyda gwahanol sectorau a sefydliadau. Parhaodd y gwaith gyda'r sefydliadau hyn yn ystod 2016-17.

Y sector ariannol a banciau'r stryd fawr

Yn ystod 2015-16 cyhoeddodd y Comisiynydd adolygiad statudol o wasanaethau Cymraeg banciau'r stryd fawr, ac un o ganlyniadau'r adolygiad oedd sefydlu fforwm o uwch-swyddogion y banciau er mwyn trafod camau gweithredu a heriau. Cyfarfu'r fforwm ddwywaith yn ystod 2016-17.

Cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad cynnydd ym mis Gorffennaf 2016. Roedd yn casglu bod peth cynnydd wedi bod wrth ddatblygu gwasanaethau Cymraeg, ond bod ffordd bell iawn i fynd gan rai eto, ac yn sicr bod ffordd bell i fynd o ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau sydd yn bodoli.

Chwaraeon Cymru

Cyfrannodd Chwaraeon Cymru at y pecyn Amdani! trwy gasglu'r sail ystadegol sy'n dangos y galw ymysg pobl ifanc am gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Chwaraeon Cymru wedi cyfrannu at ledaenu negeseuon yr ymgyrch Amdani! gyda chymdeithasau, e.e. trwy eu rhwydweithiau a'u gwefannau.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n marchnata a threfnu llety ar gyfer y sesiynau hyfforddiant, gan alluogi'r Comisiynydd i gyrraedd sefydliadau trydydd sector yn effeithiol.

Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar y cyd â'r corff ymbarél i drafod yr heriau a'r cyfleoedd o ran denu gwirfoddolwyr yn yr oes ddigidol.

Strategic links

During past years, the Commissioner has established strategic links with various sectors and organisations. Work with these organisations continued during 2016-17.

The financial sector and high street banks

During 2015-16, the Commissioner published a statutory review of high street banks' Welsh language services and as a result of the review, a forum of senior officials from the banks was established in order to discuss actions and challenges. The forum met twice during 2016-17.

The Commissioner published a progress report in July 2016. The report concluded that there had been some progress in the development of Welsh language services but some still had a long way to go in terms of publicising their existing services.

Sport Wales

Sport Wales contributed to the Give it a Go! pack by putting together the statistical basis showing the demand amongst young people for opportunities to participate in sports through the medium of Welsh. Sports Wales has contributed to the dissemination of the Give it a Go! campaign messages with associations, e.g. via their networks and websites.

Wales Council for Voluntary Action

Wales Council for Voluntary Action is responsible for marketing and hosting the training sessions, enabling the Commissioner to reach third sector organisations effectively.

A successful event was held at the National Eisteddfod in collaboration with the umbrella body on the challenges and opportunities in attracting volunteers in the digital age.

Cefnogi isadeiledd iaith**Cronfa Enwau Lleoedd**

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru ac wedi cynnull panel o arbenigwyr ar orgraff y Gymraeg ac enwau lleoedd Cymru sy'n darparu cyngor arbenigol ac annibynnol am y maes. Cynhaliwyd 3 chyfarfod o'r panel yn ystod 2016-17, ac mae'r panel wedi rhoi argymhellion ar enwau lleoedd i 21 awdurdod lleol.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd roedd gwaith yn mynd rhagddo i rannu'r argymhellion yn ehangach drwy eu cyhoeddi mewn cronfa ddata chwiliadwy y bydd modd i asiantaethau eraill lawrlwytho data ohoni.

Mae'r Comisiynydd yn aelod cyswllt o Grŵp Llywio Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, sy'n cynghori'r Comisiwn Henebion wrth iddynt fynd i'r afael â'r dasg o lunio a chyhoeddi rhestr o enwau lleoedd hanesyddol ar ran Gweinidogion Cymru. Bu hefyd yn trafod â Dai Lloyd AC wedi i'w enw gael ei ddewis drwy bleidlais ar hap i ddatblygu syniad yn fesur Cynulliad, a'i gynnig i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol.

Canllaw Cyfieithu

Yn ystod y flwyddyn, fe aed ati i ddiwygio'r canllaw cyfieithu i sefydliadau. Roedd y diwygiadau'n ymhél â chynorthwyo sefydliadau i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfieithu er mwyn ateb gofynion y safonau, a rhoddwyd pwyslais ar wneud defnydd cynyddol ond cyfrifol o dechnoleg.

Supporting language infrastructure**Database of Place-Names**

The Commissioner is responsible for recommending the standard forms of place-names in Wales, and the Commissioner has convened a panel of experts on the orthography of the Welsh language and place-names in Wales who provide specialist and independent advice. Three meetings of the panel were held during 2016-17, and the panel has given recommendations on place-names to 21 local authorities.

Towards the end of the reporting period, work was underway to share the recommendations with a wider audience via publication on a searchable database from which other agencies may download data.

The Commissioner is an associate member of the Wales Historical Place-Names Steering Group who advise the Monuments Commission as they undertake the work of drawing up and publishing a list of historical place-names on behalf of the Welsh Ministers. The Commissioner had also been in discussion with Dai Lloyd AM after his name had been drawn in a ballot to develop an idea into an Assembly measure, and his proposal to preserve historical place-names.

Translation Guidelines

During the year, the translation guidelines for organisations were revised. The revisions related to supporting organisations in making the best use of translation resources in order to meet the requirements of the Welsh language standards, placing an emphasis on making increasing but responsible use of technology.

Amcan strategol 5: Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol

Er mwyn cefnogi ei holl weithgareddau o ddylanwadu, ymchwilio, gosod dyletswyddau, rheoleiddio a hybu, mae'r Comisiynydd yn rhoi pwyslais mawr ar weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Cyfathrebu allanol

Ymgyrch Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg

I gyd-fynd â gosod y safonau cyntaf ar sefydliadau yn niwedd 2015-16 datblygwyd ymgyrch gyhoedduswydd 'Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg'. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar y manteision i'r dinesydd, yn hytrach na bod y drafodaeth gyhoeddus yn cylchdroi o amgylch y sefydliadau'n unig.

Crëwyd tudalen ymgyrch ar y wefan, a chynhyrchu fideo gyda gwahanol leisiau'n datgan bod ganddynt hawliau. Darlledwyd y fideo fel hysbyseb ar S4C rhwng Ebrill a Mehefin 2016.

Drwy gydol yr wythnos, ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Sir y Fflint, bu'r Comisiynydd a Chomisiynydd Plant Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i wrando a chasglu barn gan blant a phobl ifanc am eu profiadau yn defnyddio iaith. Drwy wahodd plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud, nod y Comisiynwyr oedd dysgu am realiti profiadau, dyheadau a rhwystredigaethau, ac adnabod cyfleoedd a bylchau er mwyn sianelu egnïon i wella'r profiad yn y dyfodol. Cyhoeddwyd casgliadau'r ymarferiad mewn cynhadledd i'r wasg a chyfweiliadau ar y cyfryngau.

Yn ystod haf 2016 bu'r Comisiynydd yn tynnu lluniau'r cyhoedd yn dal posteri Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg a defnyddiwyd yr hashnod #hawliau.

Dyma ystadegau'r ymgyrch:

- Darlledu'r hysbyseb 110 o weithiau ar S4C
- Yr hysbyseb yn cyrraedd cynulleidfa o 1,051,450 o oedolion yng Nghymru
- 73,718 o argraffiadau i negeseuon am yr ymgyrch ar Twitter y Comisiynydd
- 2,856 o ymwneud pellach i'r negeseuon Twitter

Strategic Objective 5: To operate and communicate appropriately and effectively

The Commissioner places great emphasis on effective and efficient action as a basis for all her activities in relation to extending influence, research, imposing duties, regulation and promotion.

External communication

Rights to use the Welsh Language campaign

To correspond with the imposition of the first set of standards on organisations at the end of 2015-16, a public campaign was developed on the 'Rights to use the Welsh language'. The campaign focused on the benefits for the citizen, rather than conducting a public debate centred only on organisations.

A campaign page was set up on the website, and a video was produced with different voices stating their rights. The video was broadcast as an advert on S4C between April and June 2016.

Throughout the week on the Urdd Eisteddfod field in Flintshire, the Commissioner and the Children's Commissioner for Wales worked in collaboration to listen and gather opinions from children and young people on their experiences in using the language. In inviting children and young people to voice their opinion, the aim of the Commissioners was to learn about the reality of their experiences, aspirations and frustrations, and identify opportunities and gaps so that energies may be channelled effectively to improve their experiences in the future. The findings of this exercise were announced in a press conference and in interviews with the media.

During the summer of 2016, the Commissioner photographed members of the public holding the Rights to use the Welsh Language posters using the hashtag #hawliau.

The statistics of the campaign are as follows:

- The advert was broadcast 110 times on S4C
- The advert reached an audience of 1,051,450 adults in Wales
- 73,718 impressions to messages about the campaign on the Commissioner's Twitter feed
- 2,856 further interactions to the messages on Twitter

Ymgyrch hawl i gwyno

Rhwng Ionawr a Mawrth 2017 fe weithiwyd ar yr ymgyrch 'Hawl i gwyno'. Darlledwyd hysbyseb yn dangos profiad ffuglennol mam a phlentyn yn methu â derbyn gwasanaeth Cymraeg mewn ysbyty, yn cwyno i'r sefydliad ac yna i'r Comisiynydd.

- Darlledwyd yr hysbyseb 110 o weithiau
- Cyrhaeddodd yr hysbyseb 1,197,005 o oedolion yng Nghymru

Sioeau

Roedd gan y Comisiynydd stondin yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Fel nodwyd eisoes, yr ymgyrch Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg oedd y brif neges yn Eisteddfod yr Urdd, lle cydweithiwyd yn agos â Chomisiynydd Plant Cymru.

Yn y Sioe Fawr, y Gymraeg a chwaraeon oedd y brif neges, a threfnwyd digwyddiad cyhoeddus er mwyn rhoi'r cyfle i Undeb Rygbi Cymru amlinellu eu cynlluniau o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Ar y stondin, bu swyddogion yn casglu profiadau pobl ar gyfer yr ymchwil archfarchnadoedd (gweler tud 74).

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni, cyhoeddwyd yr Adroddiad 5-mllynedd ar sefyllfa'r Gymraeg (gweler tudalennau 14 a 30) a rhannwyd gwybodaeth am yr ymgyrch Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg ar y stondin. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad arall, sef trafodaeth banel am wirfoddoli a'r iaith Gymraeg ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r llall am y Gymraeg o fewn y diwydiannau cynhyrchu bwyd ac amaeth ar y cyd ag Undeb Amaethwyr Cymru.

Y wasg

Parhaodd y gwaith o gyfathrebu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd drwy'r wasg a'r cyfryngau ac ymateb yn amserol a phriodol i ymholiadau yn ystod y flwyddyn.

- 258 o gyfeiriadau at y Comisiynydd yn y wasg brint neu ar-lein
- 36 o gyfweiliadau ar y cyfryngau
- 26 o ymatebion ysgrifenedig i geisiadau gan y cyfryngau darlledu

Right to complain campaign

Between January and March 2017, the right to complain campaign was developed. An advert highlighting a fictional account of a mother and child's experience of failing to receive a Welsh language service in a hospital, her complaint to the organisation and then to the Commissioner.

- The advert was broadcast 110 times
- The advert reached an audience of 1,197,005 adults in Wales

Shows

The Commissioner had a stand at the Urdd Eisteddfod, the Royal Welsh Show and the National Eisteddfod.

As previously noted, the main message of the Urdd Eisteddfod was the Right to use the Welsh language, with close collaboration with the Children's Commissioner for Wales.

At the Royal Welsh Show, the focus was on the Welsh language in sport, and a public event was arranged to give the WRU an opportunity to outline their plans to increase their use of Welsh. On the stand, officers gathered people's experience for the research conducted on supermarkets (see page 75).

At the National Eisteddfod in Abergavenny, the 5-year Report on the Position of the Welsh Language was published (see pages 15 and 31) and information on the campaign on the Rights to Use Welsh was shared at the stand. Two other events were held: a panel discussion on volunteering and the Welsh language in collaboration with the Wales Council for Voluntary Action, and the other on Welsh in the food manufacturing industries and agriculture, in collaboration with the Farmers' Union of Wales.

The press

Work continued in communications with stakeholders and the public via the press and media, with timely and appropriate responses to enquiries during the year.

- 258 references to the Commissioner in the printed press or online
- 36 interviews with the media
- 26 written responses to requests by the broadcast media

Twitter

Cynhaliwyd prif gyfrif @ComyGymraeg i rannu negeseuon rhagweithiol â dilynwyr yn ogystal ag i ymateb i ymholiadau cyffredinol ac fel y man cyntaf i ddefnyddwyr Twitter gyfeirio cwynion at y Comisiynydd.

Dyma'r ffigurau ar gyfer y gweithgarwch ar Twitter

- 411 o drydariadau
- 434,605 o argraffiadau
- 11,689 ymwneud
- 676 o ddilynwyr newydd

Mae cyfrif Twitter @Hybu_Cymraeg yn tynnu sylw at waith y tîm sy'n gweithio ar hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gyda busnesau a sefydliadau trydydd sector.

Dyma'r ffigurau ar gyfer y gweithgarwch ar Twitter

- 249 o drydariadau
- 214,877 o argraffiadau
- 3,442 ymwneud
- 817 o ddilynwyr ar 31 Mawrth 2017

Gwaith Rhyngwladol

Meri Huws yw Cadeirydd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith, sef fforwm o gomisiynwyr sydd â chenhadaeth debyg o wledydd ar draws y byd. Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd sy'n cynnal ysgrifenyddiaeth y gymdeithas ac sy'n gyfrifol am arwain y rhaglen waith a hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng yr aelodau.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng aelodau'r gymdeithas ar 15 Rhagfyr 2016 lle cafwyd diweddariadau gan y Comisiynwyr a'r Ombudsmyn presennol. Ffarwelwyd hefyd â Graham Fraser, Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol Canada, ac yntau'n ymdeol wedi degawd yn y swydd.

Twitter

The Commissioner's main account @ComyGymraeg continued to share proactive messages with followers, in addition to responding to general enquiries and as the first point of contact for Twitter users to refer complaints to the Commissioner.

Twitter activity was as follows:

- 411 tweets
- 434,605 impressions
- 11,689 engagements
- 676 new followers

The Twitter account @Hybu_Cymraeg publicises the work of the team responsible for the promotion and facilitation of the use of Welsh with business and third sector organisations.

Twitter activity was as follows:

- 249 tweets
- 214,877 impressions
- 3,442 engagements
- 817 followers on 31 March 2017

International work

Meri Huws is the Chair of the International Association of Language Commissioners, a forum of commissioners tasked with a similar mission in countries around the world. The office of the Welsh Language Commissioner is also responsible for the secretariat of the association and for leading the programme of work to facilitate the sharing of information between members.

A meeting of the association's members was held on 15 December 2016, where updates were provided by the Commissioners and the Ombudsmen present. After ten years in office, Graham Fraser, Canada's Commissioner of Official Languages was bid a warm farewell on his retirement.

Cynhaliwyd dau weminar rhyngwladol er mwyn hwyluso rhannu profiadau a syniadau rhwng swyddfeydd y gwahanol gomisiynwyr.

Trefniadau a hoeliodd gryn sylw yn ystod 2016-17 oedd trefniadau ar gyfer cynnal gynhadledd flynyddol y gymdeithas yng Nghaerdydd ym mis Mai 2017. Adroddir ar y gynhadledd hon yn Adroddiad Blynyddol 2017-18.

Ym mis Rhagfyr 2016 bu'r Comisiynydd ynghlwm â chynllunio taith ymwelwyr o Nunavut i Gymru. Croesawyd dau aelod ar bymtheg o bwyllgor iaith yr Inuit Tapiriit Kanatami i'r swyddfa a fu'n mwynhau bod yn rhan ganolog o'r trafodaethau ynghylch safoni, gwarchod a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol.

Two international webinars were held in order to facilitate the sharing of good practice and ideas between the commissioners' different offices.

During 2016-17, the association's annual conference at Cardiff in May 2017 was the main focus. The 2017-18 Annual Report will include an account of this conference.

In December 2016, the Commissioner was involved in planning a tour of Nunavut visitors to Wales. Seventeen members of the Inuit Tapiriit Kanatami language committee were welcomed to the office and enjoyed being a central part of discussions regarding standardisation, the preservation and promotion of minority languages.

Amcan strategol 5: parhad

Canlyniadau a chyfeddiant

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Y cyllid a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017 oedd £3,051,000 (2015-16: £3,540,000 yn cynnwys £150,000 ychwanegol wedi ei ddyrannu ym mis Chwefror 2016). Y gwariant net ar ôl llog yn ystod y flwyddyn oedd £3,055,000 (2015-16: £3,400,000), a'r gwariant ar gyfalaf oedd £18,000 (2015-16: £21,000). Ar 31 Mawrth 2017 roedd £699,000 yn y gronfa gyffredinol (31 Mawrth 2016: £703,000).

88

	2015-16 Alldro £000	2016-17 Alldro £000	2016-17 ¹ Cyllideb £000	2017-18 ¹ Cyllideb £000
Costau swyddogion	2,196	2,112	2,220	2,460
Gweinyddu				
Llety : Rhent	118	119	119	120
Llety : costau eraill	172	172	174	142
Dadfeiliadau swyddfa	12	6	-	-
Teithio a chynhaliaeth	93	68	84	74
Hyfforddiant a recriwtio	61	33	19	23
Cyfreithiol a phroffesiynol	136	114	111	114
Technoleg gwybodaeth	145	141	111	141
Cyfathrebu	43	32	39	37
Archwilwyr allanol	15	15	16	15
Gweinyddu arall	50	48	48	48
	845	748	721	714
Grantiau	60	-	-	-
Rhaglenni	233	221	147	115
Cyfalaf a dibrisiant	67	44	50	50
Gwariant arall	-	-	26	-
Gwariant Net	3,401	3,125	3,164	3,339
Incwm	-	(69)	(69)	(63)
Llog a dderbyniwyd	(1)	(1)	-	-
Gwariant net ar ôl llog	3,400	3,055	3,095	3,276

¹ Cyllideb fewnol y cytunwyd arni cyn dechrau'r flwyddyn ariannol

Strategic Objective 5: continued

Results and appropriations

The Welsh Language Commissioner is a corporation sole funded by Welsh Ministers. The funding allocated by Welsh Ministers for the year 1 April 2016 to 31 March 2017 was £3,055,000 (2015-16: £3,540,000 including an additional £150,000 allocated in February 2016). The net expenditure after interest for the year was £3,055,000 (2015-16: £3,400,000), with capital expenditure of £18,000 (2015-16: £21,000). At 31 March 2017 the general reserve was £699,000 (31 March 2016: £703,000).

89

	2015-16 Outturn £000	2016-17 Outturn £000	2016-17 ¹ Budget £000	2017-18 ¹ Budget £000
Officers' costs	2,196	2,112	2,220	2,460
Administration				
Accommodation : Rent	118	119	119	120
Accommodation : other costs	172	172	174	142
Office dilapidations	12	6	-	-
Travel and subsistence	93	68	84	74
Training and recruitment	61	33	19	23
Legal and professional	136	114	111	114
Information technology	145	141	111	141
Communication	43	32	39	37
External audit fee	15	15	16	15
Administration other	50	48	48	48
	845	748	721	714
Grants	60	-	-	-
Programme costs	233	221	147	115
Capital and depreciation	67	44	50	50
Other expenditure	-	-	26	-
Net Expenditure	3,401	3,125	3,164	3,339
Income	-	(69)	(69)	(63)
Interest receivable	(1)	(1)	-	-
Net expenditure after interest	3,400	3,055	3,095	3,276

¹ Internal budget approved at the beginning of the financial year

Sylwadau ar yr Amcangyfrif, y gyllideb a'r alldro yn y cyfnod

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae'n ofynnol i mi, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i gyflwyno amcangyfrif o wariant i Weinidogion Cymru. Yn dilyn nifer o flynyddoedd lle derbyniwyd toriadau olynol i'r gyllideb, ar 06/10/2016 cyflwynwyd Amcangyfrif 2017-18 am £3.239m yn adlewyrchu'r adnoddau ariannol sydd eu hangen er mwyn i'r sefydliad weithredu ei strategaeth a'i gynllun gweithredu ac i gyflawni ei swyddogaethau a'i dyletswyddau .

Cymeradwywyd cyllideb Llywodraeth Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, dyrannwyd cyllideb o £3.051m ar gyfer 2017-18, sef cyllideb ar yr un lefel â 2016-17. Gan ystyried cyd-destun cyllideb 2017-18, rhagolwg ar gyfer alldro'r flwyddyn ariannol 2016-17 a lefel y cronfeydd cyffredinol wrth gefn; lluniwyd cyllideb fanwl ar gyfer 2017-18. Cymeradwywyd cyllideb fanwl ar gyfer 2017-18 gan y Tîm Rheoli, sydd yn rhagweld gorwariant o £225,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r gorwariant a gynlluniwyd yn gam ystyrion sy'n gwneud defnydd pwrpasol o'r cronfeydd wrth gefn dros y tymor canolig. Mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r bylchau yn y strwythur sefydliadol a ddigwyddodd yn 2016-17 o ganlyniad i drosiant staff, drwy flaenoriaethu adnoddau ar staff i sicrhau bod y strwythur yn cael yr adnoddau llawn. Mae hyn yn allweddol i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei strategaeth ac i gyflawni ei ddyletswyddau.

Rhagwelir bydd lefel y cronfeydd wrth gefn dros y tymor canolig yn gyson ag egwyddor y Comisiynydd ei bod yn ddarbodus cadw cronfa wrth gefn o £150,000, sy'n hafal â 5% o wariant, ar gyfer gwariant annisgwyl yn ogystal â £100,000 ar gyfer costau cyfreithiol at bwrpas amddiffyn neu gefnogi achosion yn y llysoedd neu'r Tribiwnlys.

Costau swyddogion

Roedd costau cyflogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 yn sylweddol llai na'r gyllideb yn ogystal â'r flwyddyn flaenorol. Y prif reswm dros yr arbedion yn erbyn y gyllideb a'r flwyddyn flaenorol oedd effaith niferoedd llai o swyddogion cywerth y pen yn 2016-17, hyn o ganlyniad i swyddi yn y strwythur fod yn wag am gyfnodau yn ystod y flwyddyn oherwydd cynydd mewn trosiant staff. Roedd gwir gost cyflog y pen yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ac ychydig yn is na'r gyllideb , hyn oherwydd penodi swyddogion ar raddfa isaf y bandiau cyflog mewn cyfnod lle bu cynydd mewn trosiant staff.

Commentary on the Estimate, budget and outturn for the period

As Accounting Officer I am required, in accordance with the Welsh Language Measure (Wales) 2011, to submit an estimate of expenditure to Welsh Ministers. Following a number of years where successive cuts to the budget were received, the 2017-18 Estimate was submitted on 06/10/2016 for £3.239m which reflected the financial resources required for the organisation to implement its strategy and operating plan and to fulfil its functions and duties.

The Welsh Government's budget was approved by the National Assembly for Wales, a budget of £3.051m was allocated for 2017-18, being a budget at the same level as 2016-17. Having regard to the context of the 2017-18 budget, the forecast for the outturn for the 2016-17 financial year and the level of general reserves; a detailed budget was drawn up for 2017-18. The detailed budget for 2017-18 was approved by the Management Team, which forecasts overspend of £225,000 for the financial year.

This planned overspend is a considered action which makes appropriate use of the reserves over the medium term. This plan addresses the gaps in the organisational structure which occurred in 2016-17 due to staff turnover, by prioritising resources on staff to ensure that the structure is fully resourced. This is key to enabling the organisation to deliver its strategy and to fulfil its duties.

It is forecast that the level of reserves over the medium term is consistent with the Commissioner's principle that it is prudent to maintain a reserve of £150,000, equal to 5% of expenditure, for unforeseen expenditure plus £100,000 for legal costs relating for the purpose of defending or supporting cases in the courts or Tribunal.

Officers' costs

Employment costs for the financial year 2016-17 were significantly lower than budget and the prior year. The primary reason for the savings against budget as well as prior year was the impact of full time equivalent staff numbers being lower in 2016-17, this being as a result of roles in the structure being vacant for periods due to increase staff turnover. Actual salary costs per head were consistent year on year and were slightly lower than budget due to the appointment of officers at the lower end of pay bands in a period where staff turnover increased.

Llety

Mae costau gros rhent a llety wedi aros yn gymharol sefydlog; er gwaethaf cynnydd mewn costau yswiriant a gostyngiad yng nghostau dadfeiliadau. Yr effaith sylweddol ar y gwariant net yw is-osod y gofod yn swyddfa Caerdydd sydd wedi cyfrannu £ 69,000 o incwm gweithredol.

Mae'r arbedion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2017-18 o ganlyniad i leihad i gostau gwasanaethau'r swyddfeydd a gostyngiad sylweddol yn y gwerth ardrethu ar gyfer swyddfa Caerdydd.

Teithio a chynhaliaeth

Bu lleihad i gostau teithio a chynhaliaeth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r gyllideb ar draws y sefydliad. Y prif resymau yw: effaith ymddiswyddiad ac adleoliad aelodau'r tîm rheoli, lleihad yn niferoedd swyddogion a llai o ofynion teithio, lleihad yn y gofynion i deithio ar gyfer hyfforddiant yn unol â'r gostyngiad sylweddol i'r gyllideb honno a llai o gyfarfodydd y Panel Cyngori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Hyfforddiant a recriwtio

Gan barhau i ddefnyddio dulliau recriwtio cost effeithiol, mae cynnydd mewn trosiant staff wedi achosi gwariant ychwanegol o £3,000 yn y flwyddyn. Bu lleihad o 55% yng nghostau hyfforddi a datblygu i £25,000 yn y flwyddyn, oherwydd cynlluniau i leihau'r gyllideb gyda'r amcan o ffocysu hyfforddiant a datblygiad swyddogion mewn meysydd penodol a defnydd o gyrsiau am ddim drwy AcademiCymru lle'n briodol.

Cyfreithiol a phroffesiynol

Mae'r costau hyn cynnwys cyngor cyfreithiol, gwasanaethau archwilio mewnol a gwasanaethau ymgynghorwyr tân, iechyd a diogelwch. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi gweithgareddau arferol y sefydliad. Roedd y gwariant yn gyson â'r gyllideb, gydag arbedion i'w chymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd arbediad o £14,000 ar gyngor cyfreithiol a £11,000 ar wasanaethau cyfieithu.

Technoleg gwybodaeth

Bu lleihad bach yng nghostau TG yn y flwyddyn oherwydd arbedion yn dilyn penderfyniadau i derfynu gwasanaethau nad oeddynt yn hanfodol, ond gyda chynnydd yng nghostau prosiectau. Mae'r cynnydd i'w gymharu â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn oherwydd dyrannwyd cyllideb ychwanegol ar gyfer costau prosiectau yn ystod y flwyddyn wrth i anghenion penodol gael eu datblygu. Rhagwelir bydd gwariant 2017-18 yn gyson â gwariant 2016-17.

Accommodation

Gross costs of rent and accommodation have remained relatively stable; not withstanding an increase in insurance costs offset by a reduction in dilapidation costs. The significant impact on the net expenditure has been the sub-letting of office space in Cardiff which has contributed £69,000 of operating income.

Planned savings for 2017-18 are as a result of reduced service costs on the offices and a significant reduction in the rateable value for the Cardiff office.

Travel and subsistence

Travel and subsistence costs have reduced compared to prior year and against budget across the organisation. The principal reasons are: the impact of the resignation and relocation of members of the management team, a reduction in the average headcount and less travel requirements, fewer travel requirements for training and development in line with the significant reduction to that budget and fewer meetings of the Advisory Panel and Audit and Risk Committee.

Training and recruitment

Whilst continuing to utilise cost effective methods to recruit staff, increased staff turnover has resulted in an increased expenditure of £3,000 in the year. Training and development costs reduced by 55% to £25,000 in the year due to a planned reduction in budget which aimed to focus officer training and development requirements in specific areas and utilising free course through AcademiWales where applicable.

Legal and professional

These costs comprise legal advice, internal audit services, translation services and the services of fire, health and safety consultants. These services support the ordinary activities of the organisation. Expenditure was consistent with budget, with savings compared to prior year expenditure due to savings of £14,000 on legal costs and £11,000 on translation services.

Information technology

There has been a small reduction in IT costs in the year due to costs savings as a result of decisions to cease non essential services offset by an increase in project costs. The increase compared to the budget for the year was because additional budget was allocated for project costs during the year as specific requirements were developed. Expenditure for 2017-18 is forecast to be consistent with 2016-17.

Cyfathrebu

Bu gostyngiad yng nghostau cyfathrebu i'w cymharu â'r gyllideb a'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i arbedion wrth gynhyrchu cyhoeddiadau yn dilyn penodi cyflenwyr i gytundeb fframwaith dylunio ac argraffu newydd. Hefyd bu lleihad i'r costau o ganlyniad i gategoreiddio costau hysbysebu'r ymchwiliadau safonau yn gostau rhaglenni ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17.

Rhaglenni

Roedd rhaglenni 2016-17 yn cynnwys gwaith ymchwil, cyhoeddi Adroddiad 5 Mlynedd y Comisiynydd, cynnal ymchwiliadau safonau, ymgymryd ag ymchwil i brofiad defnyddwyr o wasanaethau yn y Gymraeg, rhaglenni cyhoedduswydd ar gyfer hawliau defnyddwyr a mynychu sioeau. Ceir manylion pellach am y prif raglenni a gyflawnwyd yn yr adran ar weithgareddau a chyflawniadau'r sefydliad ar dudalennau 20 i 86. Mae toriad sylweddol i wariant ar raglenni wedi ei gynllunio ar gyfer 2017-18 wrth i gyfran gynyddol o gyllideb y sefydliad gael ei gwario ar gostau cyflogaeth.

Tâl yr Archwilwyr Allanol

Datgelir taliadau'r archwilwyr yn nodyn 4 i'r cyfrifon. Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 (2015-16: £0).

Communication

Communication costs for 2016-17 have reduced against budget and prior year as a result of savings made in the production of publications following the appointment of suppliers to a new design and printing framework contract. Costs also reduced as a result of advertising costs relating to the standards investigations being categorised as programme costs for the 2016-17 financial year.

Programme expenditure

Programmes for 2016-17 included research, publication of the Commissioner's 5 Year Report, completing standards investigations, undertaking surveys into the experience of users of Welsh language services, publicity programmes for users' rights and attendance at shows. Further information about the main programmes completed is set out in the section on the organisation's activities and achievements on pages 21 to 87. A significant cut to programme expenditure for 2017-18 has been planned as an increasing proportion of the organisation's budget is spent on employment costs.

Remuneration of External Auditors

The auditor's remuneration is disclosed in note 4 to the accounts. The external auditors did not undertake any non-audit work during the year ended 31 March 2017 (2015-16: £0).

Cynllun cydraddoldeb

Mae ymrwymiad i drin pobl yn deg yn rhan ganolog o rôl y Comisiynydd. Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd, aelod o staff neu berson sy'n derbyn gwasanaeth gan y Comisiynydd yn dioddef camwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth o ganlyniad i nodweddion personol megis oedran, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, p'un a ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion ynglŷn â chydraddoldeb. Yn ystod y flwyddyn, fe gyhoeddodd y Comisiynydd ei hail Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2017-20 sydd ar gael ar y wefan.

Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen undeb gydnabyddedig o'r PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen, y Comisiynydd a'r Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

Lles

Mae'r Comisiynydd yn darparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol yn rhad ac am ddim i swyddogion er mwyn eu cefnogi os ydynt yn teimlo'n isel neu o dan straen yn y gwaith. Darperir y gwasanaeth hwn gan gontractwr allanol.

Cyrhaeddodd y Comisiynydd lefel efydd Gwobr Iechyd Gweithle Bach ym mis Mai 2016.

Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn Rheoli Perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall beth a ddisgwylir ganddynt ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny. Mae trafod anghenion hyfforddi a datblygu yn rhan allweddol o'r drefn ac mae cynllun datblygu'n cael ei lunio ar gyfer pob swyddog ar sail y trafodaethau hynny.

Equality scheme

A commitment to treating people fairly is central to the role of the Commissioner. No job applicant, staff member or person receiving a service from the Commissioner will be discriminated against, harassed or victimised due to personal characteristics such as age, disability, ethnicity, sex, gender reassignment, pregnancy or maternity, sexual orientation, religion or belief, whether they are married or in a civil partnership.

Under the Equality Act 2010 and the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011 laid down by Welsh Ministers, the Commissioner has a duty to publish a Strategic Equality Plan and equality objectives. During the year, the Commissioner published her second Strategic Equality Plan for the period 2017-20 which is available on the website.

Union recognition

The organisation has a recognised union branch of the PCS and regular meetings are held between representatives of the branch, the Commissioner and the Senior Human Resources Officer.

Well-being

The Commissioner provides a free confidential counselling service for officers in order to support them if they feel low or under strain at work. This service is provided by an external contractor.

The Commissioner was awarded a bronze level Small Workplace Health Award in May 2016.

Learning and development

The Commissioner operates a Performance Management system that ensures officers understand what is expected of them and that they have the skills and capability to achieve this. Discussion about training and development needs is a key part of the system and a development plan is drawn up for each officer on the basis of those discussions.

Ystyriwyd ffyrdd cost-effeithiol o ddatblygu sgiliau a chymwyseddau swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

Cynhaliwyd dwy seminar ar gyfer holl swyddogion y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. Roedd un seminar yn canolbwyntio ar gyfathrebu effeithiol a'r llall ar gydraddoldeb.

Materion amgylcheddol

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwmo i arferion amgylcheddol da. Mae gan y sefydliad bolisi cynaliadwyedd amgylcheddol a chynllun gweithredu blynyddol. Nod y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yw gosod amcanion er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Ceisia'r Comisiynydd leihau effaith y sefydliad ar yr amgylchedd drwy hyrwyddo defnyddio technoleg megis fideo-gynadledda er mwyn osgoi teithiau busnes; annog defnydd trafniadaeth gyhoeddus a rhannu ceir; annog swyddogion i geisio defnyddio llai o ynni a gweithredu trefniadau ailgylchu gwastraff yn ei swyddfeydd.

Mae targedau gwastraff 'Greening Government' sydd wedi eu nodi yn y cyhoeddiad 'Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: cyfarwyddiadau adroddiadau cynladwyedd 2016-17' yn parhau yn amherthnasol i sefydliadau cyhoeddus Cymru.

Rhyddid gwybodaeth

Derbyniwyd saith cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2015-16: 13 cais). Mae ymatebion y Comisiynydd i geisiadau, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ryddhawyd, wedi eu cyhoeddi ar y wefan.

Ni dderbyniwyd unrhyw gais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn ystod y flwyddyn.

Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn destun ymchwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn; roedd ei hysbysiad o benderfyniad yn cynnal penderfyniad gwreiddiol Comisiynydd y Gymraeg.

Cwynion yn erbyn y sefydliad

Yn unol ag Adran 14 y Mesur, mae gweithdrefn gwyno benodol ar gael os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Ceir copi o'r weithdrefn hon ar wefan y Comisiynydd.

Derbyniwyd dwy gwyn yn erbyn y sefydliad yn ystod 2016-17 (2015-16: 3 cwyn).

Cost-effective ways were considered to develop officers' skills and competencies to ensure that they can undertake their responsibilities effectively.

Two seminars were held for all the Commissioner's staff during the year. One seminar focused on effective communications and the other on equality.

Environmental matters

The Commissioner is committed to good environmental practices. The organisation has an environmental sustainability policy and an annual action plan. The aim of the Sustainability Action Plan is to set objectives to reduce the impact on the environment. The Commissioner seeks to reduce the organisation's impact on the environment by promoting the use of technology such as video-conferencing to avoid business journeys; encourages the use of public transport and sharing of cars; encourages staff to attempt to use less energy and operates waste recycling arrangements in its offices.

The Greening Government waste targets set out in the publication 'Public Sector Annual Reports: sustainability reporting guidance 2016-17' continue not to be applicable to Welsh public bodies.

Freedom of information

Seven requests for information were received under the Freedom of Information Act 2000 during the year (2015-16: 13 requests). The Commissioner's responses to requests, as well as any information released, are published on the website.

No subject access request for information was received under the Data Protection Act 1998 during the year.

The Welsh Language Commissioner was subject to an investigation by the Information Commissioner's Office during the year whose decision notice upheld the Welsh Language Commissioner's original decision.

Complaints against the organisation

In accordance with Section 14 of the Measure, a specific complaints procedure is available if an individual wishes to complain about acts or omissions involving the exercise of the Commissioner's functions. A copy of this procedure can be found on the Commissioner's website.

Two complaints against the organisation were received during 2016-17 (2015-16: 3 complaints).

Cynlluniau ar gyfer 2017-18

Ar 1 Ebrill 2015 cyhoeddwyd Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2015-17. Mae'r Cynllun yn cynnwys pum amcan strategol ac ugain blaenoriaeth. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 mae'r Comisiynydd wedi datblygu cynllun gweithredol sy'n nodi pa weithgareddau a chynlluniau fydd ar waith o dan bob amcan.

Maent yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

Amcan strategol 1: Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi

- Datblygu dogfennau briffio i wneuthurwyr polisi ar ofal plant cyfrwng Cymraeg a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- Ymchwilio i addysg a hyfforddiant gweithwyr gofal sylfaenol
- Cydweithio â'r Gymdeithas Alzheimer's er mwyn casglu tystiolaeth am brofiadau siaradwyr Cymraeg sydd wedi eu heffeithio gan ddementia

Amcan strategol 2: Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg

- Digwyddiadau addysgu i swyddogion sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau
- Gweithgareddau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg
- Cynnal a diweddarau cofrestr camau gorfodi

Amcan strategol 3: Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio

- Sesiynau briffio gyda sefydliadau a datblygu codau ymarfer
- Arolygon i wirio profiad defnyddwyr ac astudiaethau thematig
- Cyhoeddi Adroddiad Sicrwydd ar brofiadau pobl o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg

Amcan strategol 4: Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol

- Darparu adnoddau a hyfforddiant er mwyn annog busnesau a sefydliadau trydydd sector i gynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Datblygu canllawiau a rhannu arfer da yn y sector chwaraeon ac elusennau plant
- Safoni enwau lleoedd a chyhoeddi cronfa enwau lleoedd Cymru

Plans for 2017-18

The Welsh Language Commissioner's Strategic Plan 2015-17 was published on 1 April 2015. The Plan contains five strategic objectives and twenty priorities. For the 2017-18 financial year, the Commissioner has developed an action plan outlining which activities and plans will be undertaken under each objective.

They include the following activities:

Strategic Objective 1: To influence the consideration given to the Welsh language in policy developments

- Develop briefing documents for policy makers on Welsh-medium childcare and Welsh-medium apprenticeships
- Research into the education and training of primary care professionals
- Collaboration with the Alzheimer's Society in order to gather information on the experiences of Welsh speakers affected by dementia

Strategic Objective 2: To ensure justice for Welsh language users

- Educational events for officers from organisations subject to standards
- Engagement activities with Welsh language service users
- Maintain and update the enforcement action register

Strategic Objective 3: To impose statutory duties and regulate them

- Briefing sessions with organisations and development of codes of practice
- Monitoring reviews based on service user experiences and thematic studies
- Publish an Assurance Report on the experience of Welsh language service users

Strategic Objective 4: To encourage, promote and facilitate the use of the Welsh language on a voluntary basis

- Provide resources and training to encourage businesses and third sector organisations to increase their use of Welsh
- Develop guidance and share good practice in the sports sector and children's charities sector
- Standardise place-names and publish a database of Welsh place-names

Amcan strategol 5: Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol

- Gweithredu strategaeth gyfathrebu newydd a datblygu'r ymgyrch "hawliau" ymhellach
- Adolygu gwefan y Comisiynydd
- Datblygu a pharatoi cynllun hyfforddiant newydd

Strategic Objective 5: To operate and communicate appropriately and effectively

- Implement a new communications strategy and further develop the "rights" campaign
- Review the Commissioner's website
- Develop and prepare a new training plan

Atebolrwydd

104

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol	106
Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff	124
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	144
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	146

Accountability

105

Annual Governance Statement	107
Remuneration and Staff Report	125
Statement of the Accounting Officer's Responsibilities	145
Certificate and Report of the Auditor General for Wales to the National Assembly for Wales	147

Adroddiad a Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2016-17

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Comisiynydd y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad a bod ei systemau a'i weithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Diben y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel Comisiynydd y Gymraeg a chydbwysu'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

Diffinnir Comisiynydd y Gymraeg drwy statud fel corfforaeth undyn a chanddo bwerau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ran 2, Mesur y Gymraeg.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei gyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w ddwyn i gyfrif am ei weithgareddau.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol.

Mae Datganiad Llywodraethiant parhaol Comisiynydd y Gymraeg i'w gael ar y wefan gorfforaethol.

Annual Governance Statement and Report 2016-17

Scope of responsibility

As the Accounting Officer I am personally responsible for the overall organisation, management and staffing of the Welsh Language Commissioner. I must ensure that the organisation has a high standard of financial management and that its financial systems and procedures promote the efficient and economical conduct of business and safeguard financial propriety and regularity.

The purpose of the governance framework

The governance framework is designed to preserve my independence as Welsh Language Commissioner and to balance that independence with my accountability for the public money I spend.

As Accounting Officer I am accountable to the National Assembly for Wales, the Welsh Ministers or the Public Accounts Committee of the National Assembly for Wales or the House of Commons or the Public Accounts Committee of the House of Commons.

The Welsh Language Commissioner is defined by statute as a corporation sole whose powers and responsibilities are set out in Part 2 of the Welsh Language Measure.

The governance framework comprises the systems, processes, culture and values by which the Welsh Language Commissioner is directed and through which it is accountable for its activities.

The system of internal control is a significant part of the governance framework and is designed to manage risk to a reasonable level.

The Welsh Language Commissioner's permanent Governance Statement is available on the corporate website.

Llywodraethiant y sefydliad

Cynllunio strategol ac adolygu perfformiad

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Gynllun Strategol dwy flynedd hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2016-17, gyda Chynllun Gweithredol manwl yn cael ei lunio ar gyfer pob blwyddyn. Datblygwyd Cynllun Gweithredol 2016-17 gyda chyfraniad uwch swyddogion y Comisiynydd drwy drafodaethau mewnol. Yn ystod y flwyddyn penderfynodd y Tîm Rheoli ymestyn y Cynllun Strategol ynghyd a'i amcanion i 2017-18.

Cyfrifoldeb y ddwy Gyfarwyddiaeth yw gweithredu'r camau sydd wedi'u nodi, ac yna bydd y Tîm Rheoli'n adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a'r canlyniadau. Cyflawnwyd mwyafrif helaeth gweithgareddau allweddol 2016-17 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac adroddir arnynt yn yr adroddiad strategol ar dudalennau 6 i 98.

Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 y Mesur, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg benodi dirprwy Gomisiynydd. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau gwyliau a salwch ac ar unrhyw adeg arall ar gais Comisiynydd y Gymraeg. Mae Gwenith Price, Cyfarwyddwr Cydymffurfiaeth a Gorfodi, yn parhau fel Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ers ei hail benodi ym mis Medi 2015.

Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac yn cynnwys yr holl Gyfarwyddwyr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Cafodd cylch gorchwyl y Tîm Rheoli ei adolygu ym mis Gorffennaf 2016. Mae cylch gorchwyl y Tîm Rheoli wedi ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Cyfarfu'r Tîm Rheoli yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am arwain a rheoli gweithgarwch ar draws y sefydliad. Yn y pen draw, dyma'r prif fforwm (wedi ei gefnogi'n briodol gan grwpiau eraill) ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol am faterion gweithredu, adnoddau, cyfathrebu a materion gweinyddol eraill er mwyn gweithredu'r cynllunio strategol a'r holl brosesau cynllunio busnes eraill, ac ar gyfer monitro perfformiad.

Governance of the organisation

Strategic planning and performance review

The Commissioner has a Strategic Plan for a two year period to the end of the financial year 2016-17, with a detailed Operating Plan drawn up for each year. The 2016-17 Operating Plan was developed through contributions from the Commissioner's senior officers during internal discussions. During the year the Management Team decided to extend the current Strategic Plan along with its objectives into 2017-18.

It is the responsibility of both Directorates to implement the actions that have been specified, the Management Team then reviews progress against targets and outcomes. The vast majority of key activities for 2016-17 were completed by the end of the financial year and they are reported on in the strategic report on pages 7 to 99.

Deputy Commissioner

In accordance with sections 12 and 13 of the Measure, the Welsh Language Commissioner is required to appoint a Deputy Commissioner. The Deputy Commissioner will deputise for the Welsh Language Commissioner during periods of holiday, illness and any other occasion at the request of the Welsh Language Commissioner. Gwenith Price, Director of Compliance and Enforcement, continues as Deputy Welsh Language Commissioner since her reappointment in September 2015.

Management Team

The Management Team, chaired by the Commissioner, and comprising all directors, exercises management of the Commissioner's functions and activities. The Management Team is responsible for leading, agreeing and delivering the Commissioner's strategic vision, policies and services to the public and other stakeholders. The Management Team's terms of reference were reviewed during July 2016. The Management Team's terms of reference is published on the Commissioner's website.

The Management Team met regularly during the year and is responsible for leadership and management across the organisation. It is the ultimate forum (supported appropriately by other groups) for making executive decisions about operational, resource, communications and other administrative matters in order to implement the strategic and all other business planning processes, and for monitoring performance.

Caiff papurau yn ymwneud â chyllid, adnoddau dynol a staffio, adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol, cyhoeddiadau o sylwedd a phenderfyniadau o natur strategol eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli i'w hystyried a gwneud penderfyniad.

Papers relating to finance, human resources and staffing, progress reports against the operating plan, significant publications and decisions of a strategic nature are presented to the Management Team for consideration and decision making.

Roedd aelodaeth y Tîm Rheoli, yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Meri Huws	Comisiynydd y Gymraeg
Gwenith Price	Cyfarwyddwr Cydymffurfiaeth a Gorfodi a Dirprwy Gomisiynydd
Dyfan Sion	Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil

Management Team membership during the year was as follows:

Meri Huws	Welsh Language Commissioner
Gwenith Price	Director of Compliance and Enforcement and Deputy Commissioner
Dyfan Sion	Director of Policy and Research

Archwilwyr

Paratowyd cynllun archwilio mewnol gan yr archwilwyr mewnol ym mis Mai 2016 ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin 2016.

Auditors

An internal audit plan was prepared by the internal auditors during May 2016, which was approved by the Commissioner and the Audit and Risk Committee in June 2016.

Yn unol ag Atodlen 1 Rhan 5 o'r Mesur, Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon y Comisiynydd.

In accordance with Schedule 1 Part 5 of the Measure, the Auditor General for Wales is responsible for auditing the Commissioner's accounts.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Rheoli ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Cafodd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ei adolygu ym mis Ionawr 2017. Ceir copi o gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ar wefan y Comisiynydd.

Audit and Risk Committee

The Audit and Risk Committee is responsible for providing advice and independent assurance to the Accounting Officer and the Management Team on the adequacy and effectiveness of internal control and risk management. The Audit and Risk Committee's terms of reference was reviewed in January 2017. A copy of the Audit and Risk Committee's terms of reference can be found on the Commissioner's website.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol. Mae trefn mewn lle sydd yn caniatáu i aelodau ymddeol ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth. Yn 2016-17 penodwyd Rheon Tomos yn Gadeirydd i olynu Wyn Penri Jones.

The Committee comprises four independent members. A procedure is in place to allow members to retire at different times to ensure continuity of experience and knowledge. In 2016-17 Rheon Tomos was appointed Chair to succeed Wyn Penri Jones.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg tair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17. Roedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'u presenoldeb fel a ganlyn:

	29/06/2016	07/12/2016	15/03/2017
Rheon Tomos (Cadeirydd)	✓	✓	✓
Wyn Penri Jones	✓	✓	✓
Nigel Annett	✓	✓	✓
Dr Ian Rees	✓	✓	✗

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn nifer o eitemau agenda sefydlog ym mhob cyfarfod. Fel rhan o'r cylch gwaith mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad cyllid misol a'r adroddiad cynnydd ar y Cynllun Gweithredol, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli.

Mynychir pob Pwyllgor Archwilio a Risg gan aelodau'r Tîm Rheoli a'r Rheolwr Risg. Mae cynrychiolwyr o'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod. Mae croeso hefyd i ddau swyddog arsylwi ar y cyfarfodydd.

Ar ddiwedd pob cyfarfod caiff pawb sy'n mynychu gyfle i gynnig barn ar unrhyw agwedd ar y cyfarfod. Cynhaliwyd adolygiad, ar ffurf ffurflen hunan asesu o waith y Pwyllgor Archwilio a Risg yn 2015-16, ac fe drafodwyd y canfyddiadau yng nghyfarfod mis Mehefin 2016; sef bod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon gydag ymatebion cadarnhaol i'r cwestiynau. Cytunwyd i neilltuo amser penodol ar gyfer cynnal sesiynau briffio a hyfforddiant ar faterion perthnasol gyfer yr aelodau. Hefyd cytunwyd byddai'r Pwyllgor yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Comisiynydd, yn ogystal â'r cyfarfodydd preifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol.

The Audit and Risk Committee met three times during the financial year 2016-17. The members of the Audit and Risk Committee and their attendance was as follows:

	29/06/2016	07/12/2016	15/03/2017
Rheon Tomos (Chair)	✓	✓	✓
Wyn Penri Jones	✓	✓	✓
Nigel Annett	✓	✓	✓
Dr Ian Rees	✓	✓	✗

The Audit and Risk Committee receives a number of standard agenda items for each meeting. As part of its remit the Committee receives the monthly finance report and the Operational Plan progress report, which have been approved by the Management Team.

The Management Team and the Risk Manager attend all Audit and Risk Committees. Representatives of the internal and external auditors are invited to each meeting. An opportunity is also made available for two officers to observe the meetings.

At the end of each meeting the attendees are able to give an opinion on any aspect of the meeting. The Committee's work for 2015-16 was reviewed by means of a self-assessment form; the findings were discussed at the meeting in June 2016; that based on positive responses to the questions that the Committee operates efficiently and effectively. It was agreed to schedule a specific time for briefing and training sessions on relevant topics for the members. Also it was agreed that the Committee would continue to have discussions with the Commissioner as well as having private meetings with the internal and external auditors.

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Banel Cynghori. Penodir aelodau'r Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Ceir copi o gylch gwaith y Panel Cynghori ar wefan y Comisiynydd.

Roedd aelodaeth y Panel Cynghori, a'u presenoldeb fel a ganlyn:

114

	30/09/2016	17/03/2017
Bethan Jones Parry (Cadeirydd)	✓	✓
Y Gwir Barch. Carl Cooper	✓	✓
Nick Speed	✓	✓
Meinir Davies	✓	✓
Heledd Iago	✓	✓

Cofrestr buddiannau

O ystyried pwerau rheoleiddio'r Comisiynydd, bernir ei bod yn bwysig nad oes unrhyw ganfyddiad bod y Comisiynydd, y Cyfarwyddwyr na swyddogion y sefydliad yn rhagfarnllyd mewn unrhyw ffordd. Bernir hefyd ei bod yn bwysig nad yw buddiannau personol yn dylanwadu ar y modd caiff y dyletswyddau a'r swyddogaethau eu cyflawni.

Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddarau ddwywaith yn flwyddyn; yn ogystal â'r broses ffurfiol gofynnir i aelodau o'r Tîm Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Panel Cynghori gofnodi unrhyw fuddiannau ar ddechrau'r cyfarfodydd.

Ni chafwyd trafodion materol perthnasol yn ystod y flwyddyn â sefydliadau lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, mewn swyddi dylanwadol. Ceir gwybodaeth am fuddiannau'r Tîm Rheoli ar wefan y Comisiynydd.

Welsh Language Commissioner's Advisory Panel

As required by the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Commissioner has an Advisory Panel. Advisory Panel members are appointed by Welsh Ministers for a period of three years. The Commissioner can consult with the Advisory Panel on any matter. A copy of the Advisory Panel's remit can be found on the Commissioner's website.

The members of the Advisory Panel and their attendance was as follows:

115

	30/09/2016	17/03/2017
Bethan Jones Parry (Chair)	✓	✓
Rt Rev. Carl Cooper	✓	✓
Nick Speed	✓	✓
Meinir Davies	✓	✓
Dr Heledd Iago	✓	✓

Register of interests

Given the regulatory powers of the Commissioner, it is considered important that there is no perception that the Commissioner, the Directors or officers of the organisation are biased in any way. It is also considered important that personal interests do not influence the way in which the Commissioner's duties and functions are fulfilled.

The register of interests is updated twice a year; additional to the formal process members of the Management team, the Audit and Risk Committee and the Advisory Panel are requested to minute any interests at the beginning of the meeting.

There were no material transactions during the year with organisations with which the Commissioner, the directors or senior officers, or any of their family, held positions of influence. Information relating to the interests of the Management Team is available on the Commissioner's website.

Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn, dygwyd 9 achos gerbron Tribiwnlys y Gymraeg. O'r rhain, tynnwyd 4 cais yn ôl gan i'r partion allu ddatrys yr anghydfod; gwrthododd y Tribiwnlys roi caniatâd i 3 chais. Ar ddiwedd Mawrth 2017 roedd 2 achos yn parhau i gael eu hystyried gan y Tribiwnlys.

Mae'r Tribiwnlys yn cynnal cofrestr o'r achosion ar ei wefan lle gellir dilyn hynt pob achos.

Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol (adran 17 – 20, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993)

Y Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb dros gwynion ac Ymchwiliadau Statudol (adran 17 – 20, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993). Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- gwneud argymhellion statudol yn ymwneud â chwynion, ymchwiliadau ac adroddiadau ymchwiliadau adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- rhesymu a dyfarnu ar adroddiadau ymchwiliad sy'n cwmpasu honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg;
- ystyried unrhyw gŵyn neu achos a gaiff ei gyfeirio at sylw'r Tîm Rheoli gan y Cyfarwyddwyr.

Yn ystod 2016-17 agorwyd 4 ymchwiliad statudol dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan y Comisiynydd a 73 ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ni chynhaliwyd ymchwiliad i 'ymyrraeth â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg' yn unol ag Adran 115 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion pellach am yr ymchwiliadau o dan Amcan Strategol 2 ar dudalennau 34 i 50.

Welsh Language Tribunal

During the year, 9 cases were brought before the Welsh Language Tribunal. Of these, 4 applications were withdrawn because the parties were able to resolve the dispute; the Tribunal refused permission to grant 3 applications. At the end of March 2017 two cases remained under consideration by the Tribunal.

The Tribunal maintains a register of cases on its website where all case progress may be followed.

Complaints and Statutory Investigations (section 17 – 20, Welsh Language Act 1993)

The Management Team has responsibility for complaints and Statutory Investigations (section 17 – 20, Welsh Language Act 1993). These responsibilities include:

- making statutory recommendations in relation to complaints, investigations and investigation reports in accordance with section 17 of the Welsh Language Act 1993 and section 71 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011;
- deliberating and determining in relation to investigation reports encompassing allegations of interference with an individual's freedom to use the Welsh language;
- considering any complaint or case referred to the Management Team by the Directors.

During 2016-17 the Commissioner commenced 4 statutory investigations under section 17 of the Welsh Language Act 1993 and 73 investigations under section 71 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

During the year, no investigations into 'interference with an individual's right to use the Welsh language' were conducted in accordance with Section 115 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

There is further information about the investigations under Strategic Objective 2 on pages 35 to 51.

Gweithio'n gyfochrog ag Ombwdsmyrn a Chomisiynwyr

Mae Adran 20 a 21 y Mesur yn amlinellu i ba raddau y gall Comisiynydd y Gymraeg weithio'n gyfochrog ag ombwdsmyrn a chomisiynwyr eraill yng Nghymru. Yn y Mesur fe enwir y sefydliadau canlynol fel rhai i'r Comisiynydd weithio'n gyfochrog â hwy: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Comisiynydd Plant Cymru; a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Er nad oes gofyniad statudol mae gan y Comisiynydd Femorandwm Cydweithio gyda Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu hefyd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i drafod materion strategol a gweithredol. Mae swyddogion yn mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar draws y meysydd cyllid, adnoddau dynol a thechnoleg gwybodaeth. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd i drafod dulliau cydweithio ar ddarnau o waith penodol yn ystod y flwyddyn.

Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r system rheoli risg yn cael ei harwain gan y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yr Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau yw Rheolwr Risg y sefydliad. Cynhelir hyfforddiant sefydlu ar ymwybyddiaeth risg ar gyfer swyddogion newydd, y rheini yn dychwelyd o gyfnodau absenoldeb estynedig a swyddogion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Y fframwaith risg a rheoli

Mewn ysbryd o welliant parhaus, mabwysiadwyd dull diwygiedig o reoli risg yn ystod y flwyddyn yn dilyn sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r dull hwn wedi arwain at ddwy haen, Strategol a Gweithredol, o reoli risg.

Mae proses, dan arweiniad y Rheolwr Risg a'r Cyfarwyddwyr, o adolygiadau risg strwythuredig sy'n effeithio timau unigol yn cael ei gynnal gydag uwch swyddogion fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol o'u meysydd cyfrifoldeb. Mae'r risgiau a nodir ac a gofnodir fel rhan o'r broses hon yn ffurfio risgiau gweithredol y sefydliad dan reolaeth bob uwch swyddog.

Working with Ombudsmen and Commissioners

Sections 20 and 21 of the Measure outline the degrees to which the Welsh Language Commissioner can work with ombudsmen and other commissioners in Wales. The Measure names the following organisations as those that the Commissioner can work with: Public Services Ombudsman for Wales; Older People's Commissioner for Wales; Children's Commissioner for Wales; and the Equalities and Human Rights Commission. Whilst there is no statutory requirement, the Commissioner also has a Memorandum of Understanding with the Independent Police Complaints Commission.

The Welsh Language Commissioner meets regularly with the Older People's Commissioner for Wales, Children's Commissioner for Wales and the Public Services Ombudsman for Wales to discuss strategic and operational matters. Officers attend networks and meetings of organisations that are financed by the Welsh Government across the areas of finance, human resources and information technology. Meetings were also held during the year to discuss ways of cooperating on individual pieces of work.

Capacity to handle risk

The risk management system is led by the Management Team and endorsed by the Audit and Risk Committee. The Senior Finance and Resources Officer is named as Risk Manager for the organisation. Induction training on risk awareness is undertaken for all new officers, those returning from extended absences and officers undertaking additional responsibilities.

The risk and control framework

In a spirit of continuous improvement, a revised approach to risk management was adopted during the year following observations from the Audit and Risk Committee. This approach has resulted in a two tier, Strategic and Operational, approach to managing risk.

A process, led by the Risk Manager and Directors, of structured risk reviews impacting individual teams is undertaken with senior officers as part of the quarterly progress reviews of their areas of responsibility. The risks identified and recorded as part of this process form the operational risks of the organisation managed by each senior officer.

Caiff y risgiau gweithredol allweddol o'r adolygiadau hyn e'u hymgorffori i'r Gofrestr Risg Strategol. Yn ogystal, bob 6 mis, cynhelir adolygiad ffurfiol gan y Rheolwr Risg a'r Cyfarwyddwyr o'r risgiau strategol sy'n effeithio'r sefydliad yn ei gyfanrwydd; gyda rhain yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg Strategol. Yna cynhelir sesiwn adolygu a herio gyda'r Comisiynydd.

Cyflwynwyd y Gofrestr Risg Strategol ddiwygiedig i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mawrth 2017 ac yn unol â chylch gwaith y pwyllgor, ddwywaith y flwyddyn wedi hynny. Bydd y Cofrestrau Risg Gweithredol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg unwaith y flwyddyn.

Caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Rheoli. Mae hynny yn ei dro yn atgoffa swyddogion i adnabod a rheoli'r risgiau.

Nodir heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad ar dudalennau 16 i 18.

Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. Dylanwadir ar fy nhrosolwg o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilyr mewnol a'r Tîm Rheoli o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system reolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill.

Cymeradwywyd y cynllun archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2016-17 gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Archwiliwyd y meysydd gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn a derbyniwyd adroddiadau arnynt.

Maes	Adroddiad Archwilio Mewnol	Lefel Sicrwydd
Y Drefn Rheoleiddio (Heriau)	Adroddiad Sicrwydd	Sylweddol
Rheolaeth Risg a Llywodraethiant	Adroddiad Sicrwydd	Sylweddol
Prosesau Ariannol Craidd	Adroddiad Sicrwydd	Sylweddol
Prosesau TG (dilydol)	Adroddiad Sicrwydd	Canolig
Cyfathrebu	Adolygiad o Werth	-

The significant operational risks from these reviews merit incorporation into the Strategic Risk Register. In addition, every 6 months, the Risk Manager and the Directors undertake a formal review of strategic risks impacting the organisation as a whole; these being recorded on the Strategic Risk Register. A review and challenge session is then undertaken with the Commissioner.

The revised Strategic Risk Register was presented to the Audit and Risk Committee in March 2017 and in accordance with the committee's remit, twice yearly thereafter. The Operational Risk Registers will be presented to the Audit and Risk Committee once a year.

Relevant risks are included in every paper that is presented to the Management Team and therefore reminds officers to identify and manage the risks.

The significant challenges facing the organisation are noted on pages 17 to 19.

Review of effectiveness

As Accounting Officer, I have responsibility for maintaining a sound system of internal control. My review of the effectiveness of the system of internal control is informed by the work of the internal auditors and the Management Team within the organisation who have responsibility for the development and maintenance of the internal control system, and comments made by the Auditor General for Wales in his management letter and other reports.

The annual internal audit plan for 2016-17 was approved by the Management Team and the Audit and Risk Committee. The following areas were audited during the year for which reports were received.

Area	Internal Audit Report	Assurance level
Regulatory Regime (Challenges)	Assurance Report	Significant
Risk Management & Governance	Assurance Report	Significant
Core Financial Processes	Assurance Report	Significant
IT Processes (follow-up)	Assurance Report	Moderate
Communication	Added Value Review	-


Mae'r archwilydwr mewnol, ktsowenstomas, wedi datgan barn yn eu hadroddiad blynyddol eu bod yn gallu rhoi sicrwydd sylweddol dros ein rheolaeth ariannol, gweithredol a strwythurol fewnol ar gyfer 2016-17. Yn eu hadroddiadau sicrwydd yn 2015-16 gwnaethpwyd argymhellion ar sut i wneud gwelliannau pellach i'r system rheolaeth fewnol. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi cadarnhau yn ei hadroddiadau ar gyfer 2016-17 bod nifer sylweddol o'r argymhellion wedi eu gweithredu a chynnydd sylweddol i'r gweddill. Roedd argymhellion pellach yn eu hadroddiadau yn 2016-17, ac rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod y flwyddyn ariannol, nid adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data personol. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth.

Effeithiolrwydd o drefniadau chwythu'r chwiban

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi trefniadau mewn lle ar gyfer llywodraethu a gwarchod adnoddau. Mater o arfer da ymhlith cyflogwyr yw gosod gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol. Cymeradwywyd Polisi Chwythu'r Chwiban Comisiynydd y Gymraeg gan y Tîm Rheoli ym mis Mehefin 2014. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac Aelodau o dîm Archwilydwr Mewnol y Comisiynydd, ktsowenstomas, yn cael eu cynnwys yn y polisi fel unigolion y gall swyddogion godi pryderon gyda hwy. Nid adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn o bryderon dan y polisi chwythu chwiban.

**Meri Huws**

Swyddog Cyfrifyddu
Comisiynydd y Gymraeg


The internal auditors, ktsowenstomas, have given an opinion in their annual report that they are able to give substantial assurance as to our internal financial, operational and organisational controls in respect of 2016-17. In their assurance reports in 2015-16 recommendations were made in order to further improve the internal control systems. The Internal Auditor has confirmed in the reports for 2016-17 that a significant number of the recommendations have been implemented and significant progress for the remainder. There were further recommendations in their reports in 2016-17 and I have responded to the recommendations and have agreed to a programme of continuous improvement.

Incidents relating to personal data

During the financial year, no incidents were reported relating to personal data. The Commissioner maintains a policy and procedures relating to information security.

Effectiveness of whistle-blowing procedures

The Welsh Language Commissioner is responsible for putting in place arrangements for governance and safeguarding of resources. It is a matter of good practice amongst employers to implement internal whistle-blowing procedures. The Welsh Language Commissioner's Whistle-blowing Policy was approved by the Management Team in June 2014. Contact details of the Audit and Risk Committee Chair and members of Commissioner's Internal Audit team, ktsowenstomas, are contained in the policy as individuals that officers can raise concerns with. No instances were reported during the year where concerns were raised under the whistle-blowing policy.

**Meri Huws**

Accounting Officer
Welsh Language Commissioner

Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff

Cytundebau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn gofyn bod penodiadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

